


# STRATEGAETH AMWYNDERAU SGLEFRFYRDDIO CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# CYDNABYDDIAETH

Diolch yn fawr i Glwb Sglefrfyrddio Caerdydd, grwpiau ffocws ieuenctid a'r cyhoedd a roddodd eu mewnbwn i sicrhau datblygiad strategaeth sy'n ymateb i anghenion a diddordebau lleol.

# CYNNWYS


## RHAGAIR

| | |
|---|---|
| Diolchiadau | |
| Crynodeb Gweithredol | 6 |

## PENNOD 1. CYFLWYNIAD, CEFNDIR A HANES

| | |
|---|---|
| Pam Creu Strategaeth Amwynderau Sglefrfyrddio? | 10 |
| Amserlin y Prosiect | 11 |
| Cyflwyniad i Sglefrfyrddio a Gweithgareddau Cysylltiedig | 12 |
| Cyfleoedd a Manteision Sglefrfyrddio | 14 |
| Tueddiadau a Chynseiliau Amwynderau Sglefrio | 18 |
| Gwersi Allweddol | 21 |

## PENNOD 2. RHESTR AMWYNDERAU SGLEFRIO PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Amwynderau Sglefrio Presennol Caerdydd | 24 |
| Prif Nodweddion Amwynderau Presennol | 26 |
| Teipolegau Amwynderau Sglefrio | 27 |
| Tu hwnt i Barciau Sglefrio | 28 |
| Amwynderau Sglefrio Cysgodol Rhag Glaw | 29 |
| Sglefrio fel Trafnidiaeth | 30 |
| Cymuned Sglefrio Caerdydd | 31 |
| Cymharu Dinasoedd | 32 |

## PENNOD 3. YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD A RHANDDEILIAID

| | |
|---|---|
| Trosolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Allgymorth | 36 |
| Gwersi Allweddol | 39 |

## PENNOD 4. CYNLLUNIO AMWYNDERAU SGLEFRIO


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 42 |
| Alinio Polisïau | 44 |
| Anghenion Tiroedd | 46 |
| Adeiladu Rhwydwaith | 48 |
| Blaenoriaethu | 52 |
| Seilwaith Sglefrio Ychwanegol | 53 |


## PENNOD 5: ARGYMHELLION


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 60 |
| Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu Allweddol | 61 |
| Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer Parciau Sglefrio | 62 |
| Dewis Lleoliad Addas | 64 |
| Mannau a Dotiau mewn Parciau | 66 |
| Mannau Sglefrio Dinesig | 68 |
| Beicffyrdd Addas i Sglefrio | 70 |
| Parciau Sglefrio Cystadlaethau a Chyrchfannau | 72 |
| Argymhelliad o Amserlin | 73 |


## ATODIADAU


| | |
|---|---|
| Cynllun Lleoliadau a Mathau o Barciau Sglefrfrddio | Atodiad 1 |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

**Pam llunio Strategaeth Amwynderau Sglefrfyrddio?**

Mae sglefrfyrddio wedi bod yn rhan o'r gwledydd hyn ers y 1960au ac mae'n parhau i fod â phresenoldeb cryf yma hyd heddiw. Ers y dyddiau sglefrfyrddio cynnar hynny, mae Caerdydd wedi bod yn gartref i gymuned sglefrio leol fywiog sy'n parhau i ddod â bywyd a chyffro i strydoedd a pharciau'r brifddinas.

Ar ôl sawl degawd o ddefnydd, mae amwynderau sglefrio presennol Caerdydd ar adeg paratoi yr adroddiad hwn â lefelau amrywiol o ran eu cyflwr ac mae angen adnoddau sylweddol arnynt i gynnal y gofynion diogelwch gofynnol. Yn hytrach na pharhau i wario adnoddau cyfyngedig ar seilwaith sy'n heneiddio, bydd Strategaeth Amwynderau Sglefrfyrddio Caerdydd yn helpu i osod y sylfaen ar gyfer rhwydwaith newydd o amwynderau sglefrio a fydd yn cynnwys dyluniadau modern â lefel isel o gynnal a chadw ac sy'n adlewyrchu anghenion cymuned sglefrio Caerdydd.

**Pwy fu'n rhan o'r broses yma?**

Lleisiodd eiriolwyr sglefrio lleol eu barn ynghylch ansawdd y cyfleoedd lleol ac mewn ymateb, ymgynghorodd Adran Parciau Caerdydd ag adrannau'r Cyngor, gweithwyr proffesiynol y diwydiant a selogion sglefrio lleol i lunio dyfodol sglefrfyrddio a champau ar olwynion bach yng Nghaerdydd. Datblygwyd gweledigaeth ar gyfer amwynderau sglefrio Caerdydd drwy arolwg ar-lein cyhoeddus a chyfarfodydd gyda Chlwb Sglefrio Caerdydd. RRoedd y broses hon yn gyfle i ddychmygu seilwaith sglefrio newydd o ansawdd dda i gefnogi plant ac oedolion fel ei gilydd.

**Beth sy'n arwain y strategaeth?**

Yn unol â'r adborth a gafwyd drwy'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd a'r dadansoddiad a wnaed gan dîm y prosiect, mae'r Strategaeth wedi diffinio'r egwyddorion, y weledigaeth, y genhadaeth a'r nodau canlynol i arwain datblygiad amwynderau sglefrio:

**Gweledigaeth:**
Mae Caerdydd yn gartref i gymuned sglefrio fywiog sy'n cael ei chefnogi'n dda gan ystod amrywiol o amwynderau sglefrio ar draws y ddinas.

**Cenhadaeth:**
I gefnogi a thyfu'r gymuned sglefrfyrddio, meithrin grwpiau defnyddwyr amrywiol, a chreu amwynderau sglefrio sy'n cefnogi ystod eang o ddefnyddiau a lefelau sgiliau.

**Nodau**
1. Ardal sy'n diwallu anghenion cymunedol
2. Hygyrch
3. Ansawdd Uchel ac Unigryw
4. Gwella Gweithgaredd Corfforol.

**Pa ddadansoddiad technegol a ystyriwyd?**

Yn ogystal â mewnbwn cyhoeddus, cynhaliodd tîm y prosiect ddadansoddiad helaeth o amwynderau sglefrio presennol, y rhwydwaith trafnidiaeth, amcanestyniadau poblogaeth, ardaloedd datblygu a thwf, polisïau cymdeithasol ac amrywiaeth o ystyriaethau a chyfleoedd lleoli eraill. Mae strategaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod swm sylfaenol o dir sglefrio yn cael ei bennu fel y gellir llunio cynllun dosbarthiad. Cyfeiriodd tîm y prosiect at y Model Mabwysiadu Parc Sglefrio (MMPS/SAM) a gwneud defnydd o amcangyfrifon Skateboard GB ar gyfer poblogaeth sglefrfyrddwyr yn y DU i benderfynu faint o dir sglefrio sydd ei angen.

Mae'r rhan fwyaf o amwynderau sglefrio presennol yn fychan eu natur ac maent yn gwasanaethu canolfan hamdden leol a'r gymdogaeth o'i chwmpas. Er bod amwynderau sglefrio yn gyffredinol wedi'u dosbarthu'n dda ar draws y ddinas, mae'r dalgylch yn fach ac o ganlyniad, mae llawer o ardaloedd yn parhau wedi eu tan-wasanaethu. Mae'r heriau'n cael eu cymhlethu gan yr hen seilwaith sy'n golygu mai symud ac adnewyddu yw'r opsiwn mwyaf

effeithiol. Gellid adeiladu rhwydwaith parciau sglefrio wedi'i ail-ddychmygu ar barciau sglefrio mwy eu maint â dalgylch mwy a thrwy hynny ddarparu mwy o hygyrchedd i drigolion ar draws y ddinas.

Mae **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)** yn cael ei ddefnyddio i ddeall yn well yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf ac i flaenoriaethu cyflwyno'r strategaeth.

**Beth mae'r Strategaeth yn ei argymell?**

**1. Parciau sglefrio mewn parciau**

Mae datblygu parciau sglefrio canolfannau rhwydwaith, modern, ar raddfa fwy mewn parciau sy'n hygyrch drwy sawl dull o deithio yn creu cymhelliant i deithio, yn ehangu dalgylch pob parc sglefrio unigol, ac yn lleihau bylchau presennol o ran y gwasanaeth ar draws y ddinas.

Blaenoriaethir cyflwyno un parc sglefrio canolfan rhwydwaith newydd a phedwar parc sglefrio ar lefel cymdogaeth trwy ystyried cymdogaethau sydd â'r anghydraddoldeb mwyaf ac hefyd â'r lefelau hygyrchedd uchaf o rannau eraill o'r ddinas.

**2. Mannau a dotiau sglefrio mewn parciau**

Yn ogystal â'r pum parc sglefrio craidd newydd i ddiwallu anghenion sylfaenol y ddinas, argymhellir ystyried cyfleoedd sglefrio llai dan yr enw mannau a dotiau i'w cynnwys wrth uwchraddio'r parciau lleol presennol neu wrth adeiladu parciau newydd.

**3. Mannau sglefrio yn y ddinas**

Yn ogystal â chynllunio ar gyfer datblygu parciau sglefrio, mae'r Strategaeth hon yn cydnabod fod sglefrfyrddio a champau ar olwynion bach hefyd yn digwydd y tu hwnt i ffiniau parciau sglefrio dynodedig ac yn mabwysiadu ymagwedd greadigol tuag at gynllunio a dylunio ar gyfer yr amodau hyn. Mae'r cynllun hwn yn blaenoriaethu "Mannau Sglefrio yn y Ddinas" sydd mewn plazas dinesig a ddatblygwyd gan y Cyngor neu ddatblygwyr preifat.

**4. Gwell llwybrau beicio i hyrwyddo sglefrfyrddio fel modd trafnidiaeth llesol**

Wrth i'r gwelliannau sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth Feicio Caerdydd barhau i gael eu cyflawni, bydd sglefrfyrddio yn dod yn opsiwn mwy hyfyw ar gyfer trafnidiaeth. Bydd canfod ffyrdd i ymgorffori ystyriaethau sglefrio ychwanegol a champau ar olwynion bach i'r rhwydwaith feicffyrdd yn gwella eu dichonolrwydd fel dull trafnidiaeth cynaliadwy ac yn cefnogi eu hintegreiddio i wead y ddinas.

**5. Cyfleuster lefel uchel**

Ystyried y potensial ar gyfer cyfleuster cystadlu ar lefel genedlaethol yn y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol fel elfen i hyrwyddo camp sglefrfyrddio yng Nghymru.

**Crynodeb o'r Argymhellion**

Erbyn 2032, bydd strategaeth amwynder sglefrio Caerdydd yn anelu at gyflawni:

- Un parc sglefrio newydd ar raddfa canolfan rhwydwaith.
- Pedwar parc sglefrio cymdogaeth newydd a chadw un parc presennol.
- Nifer o Fannau a Dotiau mewn Parciau
- O leiaf 5,000m2 o fannau amwynder sglefrio newydd mewn parciau i roi cyfanswm o 6,000m2 o ofod mewn parciau.
- Cyfleusterau sglefrio cysgodol rhag glaw ar gyfer defnydd gydol y flwyddyn.



# PENNOD 1 - CYFLWYNIAD, CEFNDIR A HANES


PRO-TEC
PRO-TEC

## PAM CREU STRATEGAETH AMWYNDERAU SGLEFRFYRDDIO?

Mae sglefrfyrddio wedi bod yn rhan o'r gwledydd hyn ers y 1960au ac mae'n parhau i fod â phresenoldeb cryf ledled y wlad heddiw[1]. Ers y dyddiau sglefrfyrddio cynnar hynny, mae Caerdydd wedi bod yn gartref i gymuned sglefrio leol fywiog sy'n parhau i sglefrio ar strydoedd a pharciau'r brifddinas.

Mae amwynderau sglefrio dynodedig presennol Caerdydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol ac wedi codi pryderon o ran diogelwch tra hefyd yn gosod straen ar adnoddau cyfyngedig y Cyngor. Mewn ymateb, mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth Amwynderau Sglefrfyrddio Caerdydd er mwyn helpu i lywio penderfyniadau ar fuddsoddiadau seilwaith sglefrio ar draws y ddinas dros y deng mlynedd nesaf.



Ffigur 1. Llun o Sglefrfyrddio ym Mharc Sgwâr Tompkins: Wil540 (trwydded CC BY-SA 4.0)



Ffigur 2. Llun o Sglefrfyrddio ym Mharc Sgwâr Tompkins: Wil540 (trwydded CC BY-SA 4.0)

## GWELEDIGAETH A CHENHADAETH


Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw bod Caerdydd yn gartref i gymuned sglefrio fywiog sy'n cael ei chefnogi'n dda gan ystod amrywiol o amwynderau sglefrio ar draws y ddinas.

I gyflawni'r weledigaeth hon, ein cenhadaeth yw cefnogi a thyfu'r gymuned sglefrfyrddio, meithrin grŵp defnyddwyr amrywiol, a chreu amwynderau sglefrio sy'n cefnogi ystod eang o ddefnyddiau a lefelau sgiliau.

1. Cafwyd gan Skateboard Great Britain - Cwestiynnau Cyffredin am Sglefrfyrddio. skateboardgb.org/faq

## AMSERLIN Y PROSIECT

| LANSIAD | GWRANDO | ARCHWILIO | YMGYSYLLTU | CYMHATHU | CWBLHAU |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymchwil<br><br>Datblygu Gweithgorau | Arolwg<br><br>Rhestr a Dadansoddi | Dull Strategaeth Ddrafft<br><br>Cynllun Gweithredu | Cael Adborth am y Strategaeth<br><br>Dull Ymgynghori â Chyngor Caerdydd a grŵp Defnyddwyr | Datblygu Argymhellion | Adroddiad Terfynol |



Ffigur 3. Sglefriwr lleol yn popio 'pole ham' dros fancyn o frics yn Neuadd y Sir.
Llun: Clwb Sglefrfyrddio Caerdydd

## CYFLWYNIAD I SGLEFRFYRDDIO A GWEITHGAREDDAU CYSYLLTIEDIG

Yn y termau symlaf, mae sglefrfyrddio yn fath o gamp hamdden lle mae person yn rholio ar fwrdd sydd wedi'i osod ar olwynion. Mae'r gweithgaredd yn boblogaidd ymhlith ieuenctid ac mae'n rhychwantu amrywiaeth o wahanol is-ddisgyblaethau gan gynnwys hirfyrddio i lawr allt, dull rhydd ar y gwastad, sglefrfyrddio fertigol a phontio, yn ogystal â sglefrfyrddio stryd ymhlith eraill. Gellir mesur sgiliau mewn sglefrfyrddio mewn sawl ffordd, ond fel arfer caiff ei gysylltu â'r gallu i reidio'n esmwyth yn ogystal â pherfformio triciau cynyddol anos. Gellir perfformio cyfuniadau posibl dirifedi o driciau mewn dilyniant a gaiff eu gwneud yn unigryw gan ddychymyg creadigol a champ y sglefrfyrddiwr. Yn achos sglefrfyrddio stryd, mae triciau yn aml yn cael eu clymu yn gynhenid i leoliad, gan ddod ag enwogrwydd daearyddol penodol i 'fannau sglefrio' o gwmpas y byd.

## HANES CRYNO SGLEFRFYRDDIO

Dyfeisiwyd sglefrfyrddio yn y 1950au yn UDA fel dewis arall i syrffio pan nad oedd tonnau. Crëwyd y sglefrfyrddau cyntaf o wrthrychau a ganfuwyd ac olwynion sgidiau sglefrio ac yn nodweddiadol roeddent i'w reidio ar dir gwastad. Yn y 1970au, fe wnaeth datblygiadau technolegol o ran creu sglefrfyrddau – yn bennaf gyda dyfeisio olwynion polywrethan a dyluniadau tryciau mwy soffistigedig – newid gallu reidio sglefrfyrddau yn ddramatig a dod â'r gamp i'r brif ffrwd. Erbyn diwedd y 70au, roedd y sîn sglefrio yn y DU wedi tanio a chael sylw llawn gan y cyfryngau fel 'Skateboard Kings' y BBC a chylchgrawn 'Skateboard! Magazine' yn dod â'r gamp i gartrefi ledled y wlad

Ar ôl ychydig o gwymp yn gynnar yn y 1980au, gwelodd sglefrfyrddio newid enfawr arall yn gynnar yn y 1990au gydag ymddangosiad sglefrio stryd. Gwnaeth y symudiad eang i ffwrdd o'r hanner peipen ar raddfa fawr ac i'r dirwedd drefol sglefrfyrddio'n fwy hygyrch i grŵp mwy o bobl a throi gwrthrychau bob dydd fel meinciau a rheiliau llaw yn nodweddion sglefrio i'w hail-ddychmygu'n greadigol gan sglefrwyr. Daeth gofodau fel Sgwâr Callaghan a elwir hefyd yn Sgwâr Bute yn lleoliadau eiconig ar gyfer sglefrio stryd yn y DU a daeth yn fan ymgynnull pwysig ar gyfer y gymuned sglefrfyrddio i ddod ynghyd. Adeiladwyd llawer o'r isadeiledd sglefrio a welwyd yng Nghaerdydd heddiw yn ystod y cyfnod hwn o ffyniant ac mae'n cynnwys y dull adeiladu parod pre-fab a oedd yn rhad ac yn syml yn y tymor byr. Er gwaethaf darpariaeth parciau sglefrio, parhaodd sglefrio stryd i ffynnu yng Nghaerdydd ac mae'n parhau i fod yn biler canolog i'r gymuned sglefrfyrddio yn ardal y ddinas heddiw. Gyda'i gyflwyniad diweddar i'r Gemau Olympaidd yn Tokyo a chategori 'Stryd' penodol ar gyfer tirwedd arddull drefol, mae sglefrfyrddio stryd wedi cadarnhau ei hun fel camp sydd yma i aros.

Mae sglefrfyrddio wedi parhau i dyfu yn ystod y degawdau diwethaf yn lleol ac yn rhyngwladol gyda grŵp defnyddwyr cynyddol amrywiol yn mabwysiadu'r gweithgaredd a arferai gael ei ddominyddu gan ddynion. Mae sefydliadau rhyngwladol fel 'Skate Like a Girl' a 'Make Space for Girls' ymhlith llawer o rai eraill wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gefnogi a thyfu cyfranogiad grwpiau ymylol sydd wedi'u hallgáu'n hanesyddol rhag sglefrfyrddio.



Ffigur 4. Llun Sglefrfyrddio yng Nghaliffornia ym 1977: Tequask (trwydded CC BY-SA 4.0)

# CYFLEOEDD A MANTEISION SGLEFRFYRDDIO

Mae cefnogaeth y cyhoedd i sglefrfyrddio wedi amrywio dros y blynyddoedd ond mae ymchwil ddiweddar wedi dod i'r amlwg sy'n cefnogi'r ystod eang o fanteision y mae sglefrfyrddio a gweithgareddau cysylltiedig yn eu cynnig i unigolion yn ogystal ag i ddinasoedd yn gyffredinol[1].

### Iechyd Corfforol a Ffordd o Fyw Actif

Mae sglefrfyrddio yn weithgaredd corfforol heriol sy'n hyrwyddo ystod eang o fuddion iechyd sy'n gysylltiedig fel arfer â chwaraeon dwysedd uchel gan gynnwys pwysedd gwaed is ac o bosib llai o glefyd coronaidd y galon. Yn ychwanegol at y manteision eang sy'n gysylltiedig â chwaraeon dwysedd uchel, mae sglefrfyrddio hefyd yn helpu i ddatblygu manteision iechyd mwy penodol nad ydynt bob amser i'w cael mewn gweithgareddau eraill fel ymdeimlad cryf o gydbwysedd, hyblygrwydd, cydsymud, dygnwch a chryfder cyffredinol.



Ffigur 5. Sglefrwyr yn ymlacio.
Llun: Darina Belonogova

> Mae sglefrio yn gwella fy iechyd meddwl yn fawr. Mae hefyd yn ffordd wych o ysgogi fy hun i ddal ati.

Ymatebydd Arolwg Caerdydd, Hydref 2021



Ffigur 6. Dyn ifanc yn gafael yn ei sgwter yn yr awyr.
Llun: Aurthur Ogleznev o Unspash

### Iechyd Meddwl

Profwyd bod sglefrfyrddio yn cynnig ystod eang o fuddion iechyd meddwl gan gynnwys symptomau llai o ran pryder, iselder ysbryd, a theimladau cyffredinol o straen. Mae'r manteision iechyd meddwl hyn yn arbennig o bwysig ymhlith ieuenctid sydd ar adeg ffurfiannol yn eu bywydau ac yn adeiladu arferion gydol oes o ran lles meddyliol a hunanddelwedd. Gydag ymwybyddiaeth gynyddol am bwysigrwydd cynnal iechyd meddwl, mae sglefrfyrddio a llawer o gampau cysylltiedig yn cynnig opsiwn hygyrch ac effeithiol i lawer o bobl.

1. Corwin et al. (2,019) Beyond the Board: Findings from the Field. Wedi ei gyrchu oddi wrth: Pullias, USC Publications.

### Ymgysylltu ag Ieuenctid

Prin yw'r mannau cyhoeddus sydd wedi eu neilltuo i bobl ifanc. Er bod amwynderau sglefrio ar agor i bobl o bob oed, deallir yn eang eu bod yn tueddu tuag at ieuenctid a gallant fod yn lle diogel i bobl ifanc deimlo eu bod yn perthyn go iawn. Fel gofod ieuenctid anffurfiol neilltuedig yn ardal y ddinas, gall amwynderau sglefrio ddarparu strwythur diogel a hygyrch i fywydau pobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd ar y cyrion neu sydd â diffyg strwythur i rannau eraill o'u bywydau. Ar ben hynny, mae'r weithred o sglefrfyrddio yn adeiladu nodweddion cymeriad cadarnhaol ymhlith pobl ifanc trwy ddysgu dyfalbarhad, ymrwymiad, gwytnwch, a rhinweddau ymarfer ymhlith llawer mwy. Mae'r nodweddion cymeriad cadarnhaol hyn yn trosglwyddo i lawer o agweddau eraill ar eu bywydau, gan helpu i feithrin aelodau iach a chyfranogol o gymdeithas.



Ffigur 8. Sglefriwr lleol yn popio fflip-sawdl yng nghanol dinas Caerdydd. Llun: Clwb Sglefrfyrddio Caerdydd



Ffigur 7. Dau ffrind yn mwynhau mewn parc sglefrio lleol. Llun: Cottonbro

### Cadernid Cymunedol a Chymdeithasol

Mae sglefrfyrddio yn cryfhau ymdeimlad o gymuned trwy greu gweithgaredd a rennir sy'n dod â phobl at ei gilydd. Canfu astudiaeth ddiweddar o ddiwylliant sglefrfyrddio yn yr Unol Daleithiau fod gofodau sydd wedi eu neilltuo i sglefrfyrddio fel parciau sglefrio, siopau sglefrio neu raglennu sglefrfyrddio i gyd yn creu ymdeimlad o gymuned ymhlith defnyddwyr (Corwin, et al. 2019). Bydd creu amwynderau sglefrio a meithrin cymuned yn helpu i gyflawni nodau Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant Caerdydd o fynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol a helpu i feithrin cysylltiadau rhwng dinasyddion, grwpiau, sefydliadau a busnesau preifat.

### Rhwystrau Mynediad Isel

Mae costau cychwynnol cymharol rad ar gyfer offer a dim ffioedd ychwanegol er mwyn cymryd rhan yn golygu fod y rhwystrau mynediad yn isel iawn i sglefrfyrddio a llawer o weithgareddau cysylltiedig.  Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn rhoi chwarae teg i bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol gymryd rhan. I bobl sydd wedi cael eu gwthio i'r cyrion neu sy'n methu mwynhau hamdden trwy ddulliau mwy traddodiadol, gall sglefrfyrddio a chwaraeon cysylltiedig gynnig cyfle â rhwystr isel iddo i gadw'n iach ac yn hapus. Mae mentrau lleol ar lawr gwlad wedi dod i'r amlwg dros y blynyddoedd gan gynnwys "On Board Cardiff" a hyrwyddir gan fudiadau nid-er-elw lleol i leihau'r rhwystrau hyn ymhellach trwy ddarparu sglefrfyrddau ac offer wedi'u hadnewyddu i bobl ifanc mewn angen.[1]



Ffigur 9.   Mae olwynion ychydig yn fwy o ddeunydd meddalach yn helpu gyda sglefrio ar arwynebau garw, ond yn llai delfrydol ar gyfer triciau. Llun gan Vova Krasilnikov



Ffigur 10.  Person ifanc gyda'i sgrlefrfwrdd.
Llun: Allan Mas

### Trafnidiaeth

Mae sglefrfyrddio hefyd wedi dod yn ddull pwysig o gludiant i lawer o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd gyda 39% o ymatebwyr yr arolwg yn rhestru cludiant fel eu 'steil reidio'. Er bod llawer o heriau wrth hyrwyddo sglefrfyrddio fel modd ymarferol o deithio, mae yna hefyd ystod eang o fanteision sy'n werth buddsoddi ynddynt. Er enghraifft, bydd gwelliannau a wneir i ddiwallu anghenion modd teithio ar olwynion bach fel arfer yn sicrhau y lefel uchaf o hygyrchedd, gan ddarparu cyd-fuddion i unigolion sydd â heriau i'w symudedd. Yn ogystal, mae sglefrfyrddio a chwaraeon cysylltiedig yn addas iawn ar gyfer cludiant aml-foddol, yn chwyddo effaith system drafnidiaeth gyhoeddus dinas yn effeithiol a phontio bylchau gwasanaeth ar y lefel leol.

1. Seilwiyd ar raglenni gweithredol yn ystod datblygiad y Strategaeth.



Ffigur 11. Llun gan Don Wallie Gwesty'r Mecure, Caerdydd: Clwb Sglefrfyrddio Caerdydd

# TUEDDIADAU A CHYNSEILIAU AMWYNDERAU SGLEFRIO

Mae sglefrfyrddio'n ffrwydro mewn poblogrwydd ac mae wedi ysbrydoli ystod eang o ymagweddau newydd a chyffrous tuag at ddarparu amwynderau sglefrio. Yn fwyaf nodedig, mae ffiniau gofod amwynderau sglefrio neu barciau sglefrio yn cael eu pylu fwyfwy gyda chyfleusterau sglefrio a gefnogir yn weithredol ac wedi'u lleoli o fewn mannau cyhoeddus cyffredinol.



Ffigur 12. Parc sglefrio DIY yn Vancouver Canada
Llun: Nathan Ross

### Ei Greu Eich Hun (DIY)

Mewn sawl ystyr parciau sglefrio ac amwynderau sglefrio Creu-Eich-Hun (DIY) yw man geni parciau sglefrio. Maent fel arfer yn fentrau llawr gwlad sy'n cael eu hyrwyddo gan sglefrwyr lleol a grwpiau cymunedol i lenwi bwlch yn y gwasanaeth mannau sglefrio a gymeradwyir gan y Cyngor. Fe'u nodweddir gan nifer o nodweddion sglefrio "creu-eich-hun" sy'n aml yn symudol fel y gellir eu haildrefnu gan y defnyddwyr i weddu eu dychymyg. Mae'r gwaith caled sy'n mynd tuag at gynnal y lleoedd hyn yn aml yn magu ymdeimlad cryf o gymuned ymhlith defnyddwyr.

### Nodweddion Sglefrio Lled-symudol

Mae nodweddion sglefrio lled-barhaol a lled-symudol wedi ennill poblogrwydd am eu bod yn caniatáu i berchnogion tir dreialu lleoliadau amwynder sglefrio heb ymrwymo o reidrwydd i ymyriadau parhaol. Gellir eu defnyddio hefyd mewn mannau gyda defnyddiau tymhorol megis digwyddiadau, gan ddarparu gweithgaredd a rhaglennu y tu allan i'r tymor. Maent yn ddilyniant naturiol o'r amwynder sglefrio DIY ac fel arfer fe'u dyluniwyd a'u gosod yn broffesiynol gyda cherbyd fforch godi neu offer tebyg.



Ffigur 13. Nodweddion sglefrio dur trwm yn Malmo, Sweden.
Llun: Maria Eklind (CC BY-SA 2.0 trwydded)



### Celf Sglefrio

Mae nodweddion celf sglefrio yn synthesis naturiol o ddau weithgaredd sy'n cyfrannu at ofod dinesig cyfoethog a bywiog. Mae llawer o'r celf sglefrio eiconig yn y gorffennol wedi bod yn ddi-ganiatâd ac heb unrhyw gynllunio ar ei gyfer, ond mae prosiectau diweddar ledled y byd wedi annog nodweddion celf sglefrio cyhoeddus a phlethu sglefrfyrddio i ystyriaethau o ran eu dyluniad a'u hadeiladu. Mae datblygu celf gyhoeddus y gellir ei sglefrio yn cynyddu ymgysylltiad y cyhoedd â'r darn celf tra'n darparu mannau ffotogenig ac eiconig ar yr un pryd i'r gymuned sglefrio ymgynnull o'u cwmpas.

Ffigur 14. Celf sglefrio fel rhan o amwynder sglefrio bach yn Lyon Ffrainc. Llun: New Line Skateparks



### Cyfleusterau Cysgodol a Dan Do

Mae amwynderau sglefrio yn anodd eu defnyddio yn y glaw a all gyfyngu ar gymryd rhan mewn sglefrfyrddio a gweithgareddau cysylltiedig, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf ac mewn hinsoddau gwlyb fel un y gwledydd hyn. Er mwyn cynnig cyfleoedd gydol y flwyddyn i sglefrio, mae llawer o ddinasoedd ledled y byd yn adeiladu ardaloedd cysgodol uwchlaw amwynderau sglefrio allweddol yn eu rhwydwaith a / neu yn canfod ffyrdd o ddatblygu cyfleusterau dan do llawn. Er bod cymuned sglefrio Caerdydd ar hyn o bryd yn elwa o gyfleusterau dan do a weithredir yn breifat, byddai amwynderau sglefrio ychwanegol sy'n cynnig cysgod rhag y glaw yn gwella mynediad i'r grŵp defnyddwyr, yn enwedig y rhai sydd ar y cyrion a/neu'n methu â thalu ffioedd mynediad.

Ffigur 15. Cyfleuster Sglefrio Dan Do yn Surrey, Canada. Llun: New Line Skateparks

### Llwybrau Sglefrio Gwyrdd ac Amwynderau Llinol

Mae manteisio ar leiniau o ofod ger coridorau trafnidiaeth, beicffyrdd neu lwybrau llesol eraill hefyd wedi tyfu mewn poblogrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fel math poblogaidd o gludiant, mae sglefrfyrddwyr ers tro wedi dod o hyd i gyfleoedd i sglefrio nodweddion ar hyd eu llwybrau boed bwriad i neb sglefrio arnynt ai peidio. Mae cynllunio yn fwriadol i'r nodweddion hyn gael eu hintegreiddio i'r cynlluniau teithio llesol yn caniatáu i wrthdaro posib gael ei liniaru gan ysbrydoli creadigrwydd a chyffro ar hyd y llwybr yr un pryd.




Ffigur 17. Man sglefrio wedi'i integreiddio i lwybr cerddwyr eilaidd trwy barc yn Texas, UDA. Llun: New Line Skateparks



Ffigur 16. Nodweddion silff gerrig wedi'u hintegreiddio i lwybr cerdded concrid. Llun: New Line Skateparks

### Integreiddio Trefol

Mae mannau mawr, gwastad a llyfn yn lleoliadau delfrydol ar gyfer amwynderau sglefrio gan mai ychydig iawn o fygythiad sydd i olwynion ddal ar falurion a cheir digon o le i amrywiaeth o ddefnyddwyr gyd-fodoli. Mae plazas a sgwariau trefol fel arfer yn arddangos llawer o'r nodweddion cymeriad sy'n gwneud lle gwych i sglefrio ac mewn rhai dinasoedd blaengar maent wedi dod yn ardaloedd a gynlluniwyd yn benodol i hyrwyddo'r gweithgaredd heb greu ffiniau ffurfiol o fewn y gofod. Yn yr ardaloedd hyn, rhaid ystyried yn ofalus yr ardaloedd prysur i gerddwyr, deunyddiau drud neu heb eu hatgyfnerthu, a lefelau sŵn. Serch hynny, mae ystyriaethau dylunio safle-benodol wedi profi'r potensial i'r mannau hyn ddod yn rhai o'r asedau cryfaf o ran rhwydwaith amwynder sglefrio mewn dinas.



Ffigur 18. Llithriad Smith gan sglefriwr lleol.
Llun: Clwb Sglefrfyrddio Caerdydd

## GWERSI ALLWEDDOL

Daeth sglefrfyrddio i'r amlwg yn y DU yn y 1960au ac mae wedi tyfu i fod yn weithgaredd prif ffrwd yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Yn ystod blynyddoedd cynnar hanes sglefrfyrddio, roedd y gweithgaredd yn canolbwyntio'n llwyr ar rampiau pwrpasol a bowlenni 'fertig'. Ers hynny mae esblygiad y gamp wedi tyfu i gwmpasu'r dirwedd drefol gyfan gyda nodweddion stryd nodweddiadol fel grisiau, rheiliau a silffoedd yn dod yn rhwystrau i sglefrwyr berfformio amrywiaeth o driciau.

Mae'r defnydd gorgyffwrdd ar y mannau cyhoeddus hyn wedi bod yn destun dadlau rhwng aelodau'r cyhoedd ac wedi cyfrannu at gamargraff o'r gymuned sglefrio. Fodd bynnag, mae ymchwil ddiweddar wedi dangos bod llawer o'r stereoteipiau negyddol hyn yn ffug a bod sglefrfyrddio a gweithgareddau cysylltiedig mewn gwirionedd yn dod ag ystod eang o fuddion i unigolion yn ogystal ag i'r ddinas gyfan. Mae manteision sglefrfyrddio yn cynnwys gwella iechyd corfforol a meddyliol, ymgysylltu â phobl ifanc, gwydnwch cymunedol, hamdden hygyrch, a thrafnidiaeth lesol ymhlith eraill.

Mae canfyddiad newidiol y cyhoedd o sglefrfyrddio tuag at agwedd sy'n fwy cadarnhaol a chefnogol wedi meithrin ystod eang o arloesi wrth ddarparu amwynderau sglefrio. Mae dinasoedd blaengar bellach yn chwilio am ffyrdd newydd a chreadigol o integreiddio amwynderau sglefrio i'w dinasoedd, gan gynnwys ar hyd beicffyrdd, ardaloedd i gerddwyr, ar y cyd â darnau celf cyhoeddus ac mewn ffurfweddau dros dro neu fodiwlaidd.



Llun: Mark Synan




# PENNOD 2 - RHESTR AMWYNDERAU SGLEFRIO PRESENNOL

## AMWYNDERAU SGLEFRIO PRESENNOL CAERDYDD


Er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am ddatblygiad amwynderau sglefrio yng Nghaerdydd yn y dyfodol, mae'n bwysig deall yn gyntaf seilwaith amwynder sglefrio presennol y ddinas.  Er bod llawer o'r lleoliadau pwysig ar gyfer sglefrfyrddio a gweithgareddau cysylltiedig wedi'u lleoli mewn parciau, mae gofod trefol y tu hwnt i'r parciau hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi cymuned sglefrio Caerdydd a dylid eu hystyried wrth gynllunio amwynderau'r dyfodol.

Ar hyn o bryd mae gan Gaerdydd ddeuddeg cyfleuster sglefrio yn amrywio o ran maint o tua 130 metr sgwâr i 800 metr sgwâr, gyda'r rhan fwyaf o'r amwynderau sglefrio yn rhai llai na 500 metr sgwâr.





Ffigur 19.  Map o amwynderau sglefrio presennol Caerdydd

| AMWYNDER SGLEFRIO PRESENNOL | MAINT | DISGRIFIAD |
|---|---|---|
| Parc Sglefrio Plaza Bae Caerdydd | 800$m^2$ | Parc sglefrio mwyaf ac unig barc concrit Caerdydd a gynlluniwyd yn bennaf ar arddull nodweddion stryd. Mae'r gymuned yn hoff o'r parc hwn ond mae'n anodd cael ato. |
| Parc Sglefrio Gleider Canolfan Hamdden Llanishen | 610$m^2$ | |
| Man Sglefrio Parc Coed y Nant | 530$m^2$ | |
| Man Sglefrio Pentre-poeth | 500$m^2$ | |
| Man Sglefrio Parc Trelái | 460$m^2$ | |
| Man Sglefrio Creigiau | 440$m^2$ | |
| Man Sglefrio Parc y Sblot | 430$m^2$ | |
| Man Sglefrio Llaneirwg | 400$m^2$ | |
| Man Sglefrio Canolfan Hamdden y Dwyrain / Tredelerch | 310$m^2$ | |
| Man Sglefrio'r Watrel / Y Tyllgoed | 300$m^2$ | |
| Dot Sglefrio'r Marl | 130$m^2$ | |
| Dot Sglefrio Parc y Gamlas | 80$m^2$ | |





Ffigur 20. Tabl o amwynderau Sglefrio presennol Caerdydd.

## PRIF NODWEDDION AMWYNDERAU PRESENNOL



**Cyflwr Arwyneb Garw neu Afreolaidd**
Mae cael arwyneb llyfn yn hynod o bwysig ar gyfer sglefrfyrddio a gweithgareddau neu gampau olwynion bach cysylltiedig am y gall diamedr bach yr olwynion ddal yn hawdd ar graciau, ar gerrig ac ar elfennau afreolaidd eraill ar y ddaear. Mae'r rhan fwyaf o'r amwynderau sglefrio parod yng Nghaerdydd yn cael eu gosod ar wyneb o DARMAC sy'n llyfn pan gaiff ei dywallt gyntaf, ond sy'n treulio mewn amodau glawog ac oer gan ddatgelu agregau a chreu arwyneb sgraffiniol a bras.








**Adeiladwaith Parod**
Ac eithrio parc sglefrio Plaza Bae Caerdydd, mae holl amwynderau sglefrio'r Cyngor wedi'u codi gan ddefnyddio paneli, llwyfannau a nodweddion parod. Roedd y dull adeiladu hwn yn boblogaidd yn y 1980au a'r 1990au oherwydd ei gost adeiladu ymlaen llaw is, ei fantais modiwlaidd, a'i osodiad cymharol gyflym. Yn anffodus, mae'r nodweddion hyn hefyd yn dirywio'n llawer cynt na rhai concrit gan arwain at gostau cynnal a chadw parhaus uwch a lleihau cyfranogiad cyffredinol ymhlith grwpiau defnyddwyr.  Mae'r rhan fwyaf o amwynderau sglefrio'r ddinas mewn cyflwr gwael ac mewn ambell achos maent yn peri pryderon diogelwch i ddefnyddwyr.



**Lleoliad Da yn Gyffredinol**
Mae 8 o'r 12 parc sglefrfyrddio yng Nghaerdydd wedi'u lleoli wrth ymyl cyfleusterau cymunedol (canolfannau hamdden neu hybiau), sydd fel arfer yn cynnwys toiledau, cawodydd a chaffis. Dylid ystyried caniatáu i sglefrwyr gael mynediad i'r cyfleusterau a all annog y cyfleusterau i gael eu defnyddio am gyfnodau hirach a chreu cyrchfan gymunedol. Mae Plaza Bae Caerdydd, Pentre-poeth, Parc Treláí a Chreigiau mewn lleoliadau anghysbell, mae'r 8 arall i gyd â chysylltiadau trafnidiaeth da (bysiau, trenau, neu'r ddau) ac maent mewn lleoliad da.

# TEIPOLEGAU AMWYNDERAU SGLEFRIO

Mae amwynderau sglefrio yn dod mewn ystod eang o siapiau a meintiau, pob un â'i fanteision a'i anfanteision ei hun o fewn rhwydwaith amwynder sglefrio ardal y ddinas. Bydd y gofod sydd ar gael, defnyddiau tir cyfagos, goblygiadau cyllidebol, seilwaith ategol, cyfleoedd ar gyfer rhaglennu ac ystod eang o ffactorau ychwanegol i gyd yn amrywio'n sylweddol yn seiliedig ar hyd a lled yr ymyriad. Defnyddir pedwar dosbarthiad o amwynderau sglefrio yn Strategaeth Amwynderau Sglefrio Caerdydd i ddiffinio'r asedau presennol yn ogystal â helpu i fframio argymhellion ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

| | NODWEDD | ENGHRAIFFT | LLEOLIAD + MYNEDIAD | MAINT ARFEROL |
|---|---|---|---|---|
| DOT |  |  | Yn ddelfrydol yn hygyrch iawn ar droed, beic a thrafnidiaeth gyhoeddus mewn parc lleol neu leoliad mwy trefol. | > 150m$^2$ |
| MAN |  |  | Yn ddelfrydol yn hygyrch iawn ar droed, beic a thrafnidiaeth gyhoeddus mewn parc lleol neu leoliad mwy trefol. | 150m$^2$ - 600m$^2$ |
| CYMDOGAETH |  |  | Hyblyg o ran lleoliad, yn gyffredinol mewn parciau mwy / plazas. Bydd ardaloedd dwysedd uchel yn cyrraedd eu capasiti yn gynt. Mae mynediad at gludiant lleol a chyflym yn ddelfrydol. | 600m$^2$ - 1,200m$^2$ |
| CANOLFAN RWYDWAITH |  |  | Yn hyblyg o ran lleoliad, yn gyffredinol mewn parciau cyrchfan mwy eu maint neu ganolfannau cymunedol. Mae angen gallu teithio iddo er mwyn sicrhau mynediad ledled y Cyngor. | 1,200m$^2$ - 2,500m$^2$ |

# TU HWNT I BARCIAU SGLEFRIO

Parciau sglefrio sydd wedi eu neilltuo yn gyffredinol yw asgwrn cefn rhwydwaith amwynder sglefrio iach. Maent yn darparu'r gofod â chaniatâd, nodweddion wedi'u cynllunio'n bwrpasol, ac ansawdd cyson sy'n sicrhau y gall pobl o gefndiroedd a lefelau sgiliau amrywiol ymarfer yn ddiogel. Mae hunaniaeth sglefrfyrddio, fodd bynnag, wedi ei chlymu'n gynhenid i'r dirwedd drefol neu ddinesig ac oherwydd hynny fe fydd wastad yn mynd rhagddo y tu hwnt i ffiniau parciau sglefrio dinas.

Mae gan Gaerdydd gymuned sglefrio stryd ffyniannus sydd wedi cymryd at blazas a sgwariau cyhoeddus i chwilio am leoedd ysbrydoledig i sglefrio. Mae'r sîn stryd yng Nghaerdydd mor fywiog yn rhannol oherwydd bod seilwaith parc sglefrio yma'n heneiddio o amgylch y ddinas, ond hefyd oherwydd cymeriad unigryw'r ddinas.

Mae sglefrio-stryd a gweithgareddau cysylltiedig mewn mannau cyhoeddus wedi bod, ac yn parhau i fod, yn ffynhonnell gwrthdaro rhwng sglefrwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae llawer o ddinasoedd wedi mabwysiadu dulliau amddiffynnol gyda chapiau ar silffoedd a nodweddion tebyg i atal sglefrio, ac mae eraill wedi dewis gwahardd y gweithgaredd yn gyfan gwbl. Er bod y mesurau hyn wedi bod yn effeithiol wrth leihau sglefrfyrddio mewn rhai achosion, maent hefyd wedi anfon neges glir a negyddol i'r gymuned sglefrio. Mae gwahardd sglefrwyr o fannau cyhoeddus yn parhau i fod yn fater cymhleth gyda llawer o ffactorau i'w hystyried.

Mae dinasoedd blaengar ledled y byd yn dod o hyd i ffyrdd o ymgorffori sglefrfyrddio a gweithgareddau cysylltiedig mewn mannau cyhoeddus y tu hwnt i barciau sglefrio mewn modd bwriadol ac sy'n ddiogel i bawb.




Ffigur 21. Person yn sglefrio ar nodwedd bancyn mewn plaza trefol. Llun: Hasan Zahra

## AMWYNDERAU SGLEFRIO CYSGODOL RHAG GLAW

Ar hyn o bryd mae gan Gaerdydd ddau barc sglefrio dan do a weithredir yn breifat sy'n darparu gwasanaethau talu am ddefnyddio gan gynnwys rhaglennu, gwersi a llogi. Mae'r cyfleusterau hyn yn ased cefnogol o bwys yn rhwydwaith amwynderau sglefrio Caerdydd, gan ddarparu opsiynau i gymryd rhan mewn sglefrfyrddio a gweithgareddau cysylltiedig yn ystod tymhorau gwlypach y flwyddyn.

Fodd bynnag, nid oes gan y ddinas unrhyw amwynderau sglefrio sy'n hygyrch ac yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd eu defnyddio sy'n cynnig cysgod rhag y glaw. Mae hyn yn cyfyngu ar allu sglefrwyr sy'n profi rhwystrau economaidd neu rwystrau eraill i gyrchu mannau lle mae angen talu a hynny drwy'r flwyddyn gron. Mae'r diffyg cyfleusterau cyhoeddus hefyd yn gadael y ddinas yn agored i golli'r holl amwynderau sglefrio cysgodol rhag glaw os bydd yn rhaid i'r cyfleusterau a weithredir yn breifat gau dros dro neu'n barhaol.

Mae creu cyfleusterau sglefrio cysgodol rhag glaw sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn un ffordd o sicrhau bod cymuned sglefrio Caerdydd yn cael ei chefnogi i'r dyfodol.  Opsiwn arall yw darparu rhaglenni ariannol neu gymhorthdal mewn partneriaeth â'r cyfleusterau dan do presennol i sicrhau bod sglefrwyr o bob cefndir yn gallu cymryd rhan yn y gweithgaredd y maent yn eu caru.



Ffigur 22.  Person ifanc yn sglefrio mewn gofod sych o dan drosffordd. Llun: Jack Krzysik

# SGLEFRIO FEL TRAFNIDIAETH

Mae sglefrfyrddio yn ffurf ar deithio cynaliadwy sy'n aml yn cael ei esgeuluso ond sy'n hyrwyddo ffordd o fyw llesol ymhlith defnyddwyr ac yn cynnig cyfle unigryw i chwyddo'r defnydd ar y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus.

Er nad yw sglefrfyrddio dros bellteroedd hirach fel arfer yn ddelfrydol, mae sglefrfyrddau yn cynnig cyfle cludo unigryw oherwydd bod modd eu codi a'u cario. Mae natur bychan ac ysgafn y sglefrfwrdd yn benthyg ei hun yn naturiol i deithiau aml-fodd, i gysylltu safleoedd bws a thrên â tharddiad y daith ac â chyrchfannau terfynol.

Yn wahanol i feicwyr, gall sglefrwyr gario a storio eu sglefrfyrddau yn hawdd heb boeni am raciau beic, cloeon, defnyddio lifft ac anghyfleusterau eraill. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn amgylcheddau bach, trefol, lleoliadau gwaith, a mannau byw, lle mae gofod yn nodweddiadol brin.

Er bod sglefrfyrddio yn cynnig nifer o fanteision posibl i rwydwaith teithio dinas, mae yna anghenion penodol gan sglefrfyrddio hefyd er mwyn bod yn hyfyw. Mae amodau gwlyb, arwynebau afreolaidd neu fras a gofod annigonol i gyd yn effeithio ar y gallu i sglefrwyr symud o gwmpas.



Ffigur 23. Sglefriwr ifanc yn teithio adref o'r ysgol.
Llun: Pasja1000 (Pixabay)

> Mae angen llwybrau llyfnach arnom i allu teithio ar sglefrfyrddau...

Ymatebydd Arolwg Caerdydd, Hydref 2021

## CYMUNED SGLEFRIO CAERDYDD

Mae poblogrwydd sglefrfyrddio a chwaraeon cysylltiedig yn tyfu ledled y byd ac nid yw Caerdydd yn wahanol. Mae'r gymuned sglefrio leol yn tyfu bob blwyddyn ac mae cyfle gan y Cyngor i'w cefnogi drwy ddarparu cyfleusterau sglefrio yn ogystal â chefnogi mentrau a digwyddiadau a arweinir gan y gymuned.

Mae sefydliadau llawr gwlad fel Clwb Sglefrfyrddio Caerdydd (CSC) wedi dod i'r amlwg fel canolbwynt cymunedol i sglefrwyr o bob rhan o'r ddinas ddod at ei gilydd. Mae'r CSC yn trefnu nifer o raglenni a digwyddiadau pwysig ar gyfer y gymuned sglefrio leol gan gynnwys y fersiwn leol o'r "Diwrnod Sglefrio" rhyngwladol bob haf. Ar hyn o bryd mae'r CSC yn dyblu unig siop sglefrfyrddio annibynnol Caerdydd gan ddarparu ffocws ar nwyddau sglefrio lleol i breswylwyr o bob rhan o'r ddinas a thu hwnt.

Mae datblygu parciau sglefrio dan do preifat Caerdydd hefyd yn arwydd o'r sîn sglefrio leol ffyniannus. Er bod llawer o ddinasoedd ar draws y byd yn profi hinsoddau gwlyb tebyg i rai Cymru, cymharol ychydig o ddinasoedd sydd wedi cael ymateb gan y gymuned trwy greu eu parciau sglefrio preifat eu hunain. Mae hyn nid yn unig yn dyst i fenter y gymuned sglefrio leol a'u hawydd i fod yn rhan o'r gwaith o greu eu cyfleusterau sglefrio, ond hefyd gall fod yn arwydd nad yw'r amwynderau sglefrio sy'n heneiddio bellach yn diwallu anghenion y gymuned.





Ffigur 24. Sglefriwr lleol yn Sgwâr Callaghan.
Llun: Clwb Sglefrfyrddio Caerdydd

Bydd ymgysylltu â'r gymuned sglefrio leol wrth ddatblygu amwynderau sglefrio newydd ac adnewyddu amwynderau sglefrio presennol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau'n gwasanaethu'r gymuned hon orau.

# CYMHAROL DINASOEDD

Er mwyn deall sut mae Caerdydd yn gwneud, mae'n ddefnyddiol edrych ar ddinasoedd cymharol yn lleol, rhanbarthol a rhyngwladol sy'n rhannu diwylliant, hinsawdd dinas a maint tebyg. Mae'r dinasoedd canlynol wedi elwa o ddiwylliant sglefrio cadarnhaol neu wedi rhoi strategaeth sglefrio ar waith ac fe'u defnyddiwyd mewn dadansoddiad meincnodi:




| Dinas | Malmo<br>Sweden | Utrecht<br>Yr Iseldiroedd | Milton Keynes<br>Lloegr | Bryste<br>Lloegr | Caerdydd<br>Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Poblogaeth | 350,000 | 360,000 | 190,000 | 700,000 | 365,000 |
| Poblogaeth fesul 1,000$m^2$ o Barciau Sglefrio | 43,000 | 50,000 | 59,000 | 47,000 | 83,000 |
| Cyfanswm Arwynebedd Sglefrio | 10,300$m^2$ | 6,100$m^2$ | 4,900$m^2$ | 14,900$m^2$ | 5,300$m^2$ |
| Arwynebedd Parciau Sglefrio Concrit (>600$m^2$) | 7,000 | 3,900 | 1,400 | 12,250 | 1,400 |
| Nifer y Parciau Sglefrio Concrit (>600$m^2$) | 8 | 5 | 2 | 8 | 1 |
| Cyfanswm arwynebedd Parc Sglefrio Modiwlaidd | 0$m^2$ | 910$m^2$ | 250$m^2$ | 500$m^2$ | 4,500$m^2$ |
| Maint cyfartalog Parc Sglefrio | 1,300$m^2$ | 500$m^2$ | 320$m^2$ | 1,670$m^2$ | 550$m^2$ |
| Arwynebedd Mannau a Dotiau Sglefrio (<600$m^2$) | 4,300 | 100 | 1,400 | 1,000 | 4,000$m^2$ |
| Plazas Trefol sy'n Croesawu Sglefrio | 4 | 0 | 3 | 2 | 0 |
| Dosbarthiad Gofodau Sglefrio* | Da | Da | Da | Da | Gwed ol |
| Ffeithiau Difyr | Mae gan Malmo ysgol uwchradd sglefrfyrddio a diwylliant DIY cryf<br><br>Lefel uchel o wyliau a digwyddiadau | Bob bore yn ystod yr wythnos drwy fisoedd Gorffennaf ac Awst, mae SkateDays Utrecht yn trefnu 'Wythnos Sglefrio' sy'n cynnig gwersi i rai 6-18 oed gan ddefnyddio parciau sglefrio awyr agored fel Ruigenhoek | Fe'i hstyrir yn brifddinas sglefrfyrddio'r DU. Manteisiodd llawer o sglefrfyrddwyr proffesiynol ar ddyluniad modernaidd y ddinas. | Man Sglefrio Bryste wedi'i leoli yn Lloyds Ampitheatre wedi'i nodi fel un o'r 25 plaza sglefrio mwyaf eiconig yn y byd.* King-pin | Mae gan Gaerdydd ddau barc sglefrio dan do** nid-er-elw sy'n dod i gyfanswm o tua 3,300$m^2$ |

*Asesiad dosbarthiad yn seiliedig ar ddarpariaeth yn ôl ardaloedd preswyl/trefol. Gwael = Cwmpasu cyfran fach o'r Ddinas, Gweddol = Cwmpasu rhai rhannau o'r Ddinas, Da = Cwmpasu teg yn gyffredinol, Ardderchog = Cwmpasu gorau posibl.
** Nid yw'r adroddiad yn cynnwys ardaloedd o ofod amwynder sglefrfyrddio preifat.

- Mae Malmo yn arweinydd byd-eang sydd wedi datblygu grŵp craidd o barciau sglefrio, tra'n cefnogi sglefrfyrddio mewn plazas dinesig.
- Mae Utrecht wedi ei leoli yn yr Iseldiroedd ac yn ddinas sydd o'r un maint o ran y boblogaeth a'r arwynebedd cyffredinol.
- Mae Milton Keynes yn ddinas gymharol fach sy'n cael ei hystyried fel prifddinas sglefrfyrddio'r DU. Mae pensaernïaeth fodernaidd yr 20fed ganrif wedi arwain at sîn sglefrfyrddio stryd ffyniannus.
- Mae Bryste yn ddinas gyfagos fawr sydd wedi creu seilwaith parc sglefrio sylweddol.
- Mae Caerdydd wedi dosbarthu ei hamwynderau sglefrio bach yn deg ar draws y ddinas, ond maent yn bennaf yn fodiwlaidd ac yn agosáu at ddiwedd eu hoes, gan ofyn am fwy o waith cynnal a chadw parhaus.



Ffigur 25. Moment dawel mewn parc sglefrio ym Mryste.
Llun: Zygimantas



Ffigur 26. Parc sglefrio ym Malmö, Sweden.
Llun gan Maria Eklind (trwydded cc-by-sa-2.0)



# PENNOD 3 - YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD A RHANDDEILIAID



Llun: Clwb Sglefrfyrddio Caerdydd

## TROSOLWG YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD AC ALLGYMORTH


Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn elfen hanfodol wrth gynllunio cyfleusterau sglefrio. Mae clywed gan y cyhoedd yn sicrhau y gellir darparu'r strategaeth yn benodol i anghenion y gymuned ac y gall dyrannu adnoddau fod yn fwyaf effeithiol wrth lenwi bylchau mewn gwasanaethau.

Wrth ddatblygu Strategaeth Amwynderau Sglefrio Caerdydd, conglfaen y broses ymgysylltu â'r cyhoedd oedd arolwg cyhoeddus a gynhaliwyd yn yr hydref 2021. Derbyniodd yr arolwg ar-lein 709 o ymatebwyr yn tynnu sylw at y diddordeb mewn sglefrfyrddio a gweithgareddau cysylltiedig yng Nghaerdydd.

Er y credir yn gyffredin bod sglefrfyrddio a champau eraill ar olwynion bach yn cael eu hymarfer bron yn gyfan gwbl gan ddynion ifanc, mae'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd yn awgrymu y gallai'r gymuned sglefrio yng Nghaerdydd hefyd fod yn fwy amrywiol nag a tybiwyd yn flaenorol. Yn yr arolwg i'r cyhoedd, nododd 23% o'r ymatebwyr eu bod yn fenywod, nododd 3% eu bod yn rhywedd-amrywiol / anneuaidd, ac roedd yn well gan 4% beidio â dweud neu wedi gadael y cwestiwn yn wag.

Er gwaethaf bod yn blaza cyhoeddus nas bwriadwyd fel amwynder sglefrio, soniwyd yn aml am Sgwâr Callaghan yn adran sylwadau penagored yr arolwg, gan bwysleisio ei bwysigrwydd fel canolbwynt ar gyfer y gymuned sglefrio.

> "Mae angen mwy o integreiddio ar leoedd dynodedig i'r ddinas. Mae'r hyn sydd gennym yn adfeilio..."
>
> Ymatebydd Arolwg, Hydref 2021




### 10 HOFF LE I REIDIO

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Stryd | (70) |
| 2. | Plaza Bae Caerdydd | (67) |
| 3. | Parc sglefrio | (65) |
| 4. | Rheiliau a Silffoedd | (38) |
| 5. | Spit & Sawdust | (37) |
| 6. | Awyr agored | (36) |
| 7. | Rampau | (36) |
| 8. | Sgwâr Bute / Sgwâr Callaghan | (34) |
| 9. | Gofod Gwastad / agored a llyfn | (31) |
| 10. | Ramp world | (30) |


Mannau Stryd Anffurfiol (205)

Parciau Sglefrio Ffurfiol (235)

Roedd y broses ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd yn tynnu sylw at yr amrywiaeth o ddefnyddwyr sydd â diddordeb mewn amwynderau sglefrio. O'r 709 o ymatebwyr arolwg, nododd 47% o ymatebwyr eu cyfranogiad mewn chwaraeon cysylltiedig naill ai y campau rheiny eu hunain neu'n ychwanegol at sglefrfyrddio.

Pan ofynnwyd am eu barn ar yr amwynderau sglefrio presennol, yr ymatebion mwyaf poblogaidd oedd "Teg" (1313 cyfanswm pleidleisiau) a "Gwael" (1,165 cyfanswm pleidleisiau). Yr eithriadau i'r duedd hon yw'r "Mwynhad Cyffredinol" o amwynderau sglefrio Caerdydd lle barnai'r mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn "Dda" a'r "Argaeledd Amwynderau" fel cysgod a dŵr yn ôl y mwyafrif o ymatebwyr yn "Gwael Iawn." Mae'r data hwn yn awgrymu yn gyffredinol bod y rhwydwaith amwynder sglefrio â lle i wella.

## YM MHA UN O'R GWEITHGAREDDAU HYN Y BYDDWCH CHI'N CYMRYD RHAN?




## SUT YDYM YN GWNEUD GYDA'N CYFLEUSTERAU SGLEFRIO PRESENNOL?

| | Ardderchog | Da | Teg | Gwael | Gwael Iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hygyrchedd | 23 | 142 | 231 | 133 | 46 | 11 |
| Amrywiaeth Nodweddion Sglefrio | 16 | 119 | 238 | 153 | 53 | 7 |
| Swm y Gofod Sglefrio | 9 | 87 | 190 | 219 | 70 | 9 |
| Cyflwr Arwynebau a Nodweddion Sglefrio | 20 | 105 | 208 | 161 | 82 | 7 |
| Dosbarthiad Ledled y Rhanbarth | 4 | 50 | 149 | 231 | 123 | 25 |
| Mwynhad Cyffredinol | 52 | 233 | 212 | 60 | 22 | 5 |
| Argaeledd Amwynderau (Cysgod, Dŵr ac ati) | 8 | 28 | 85 | 208 | 238 | 16 |



Ffigur 27. Plaza Bae Caerdydd Llun: Mark Synan




Ffigur 28. Sgwâr Callaghan, Caerdydd yw un o'r mannau sglefrio anffurfiol mwyaf poblogaidd yn ardal y Cyngor.
Llun: Elliot Brown (CC BY-SA 2.0 Trwydded)

Pan ofynnwyd iddynt am y tri pheth gorau sydd angen eu gwella ymhlith amwynderau sglefrio Caerdydd, yr ymatebion pennaf oedd gofod â gorchudd, dylunio plazas cyhoeddus newydd i ganiatáu / annog sglefrfyrddio, a mwy o dir / gofod sglefrio. Mae'r awydd am ofod amwynder sglefrio dan do ymhlith cyfranogwyr yr arolwg yn awgrymu nad yw'r cyfleusterau dan do presennol sy'n cael eu rhedeg yn breifat yn y ddinas yn diwallu anghenion y grŵp defnyddwyr. Mae'r diddordeb mewn integreiddio amwynderau sglefrio mewn plazas cyhoeddus yn tanlinellu canfyddiadau eraill yn yr arolwg sy'n awgrymu awydd ymhlith y gymuned i sglefrfyrddio a chwaraeon olwyn bach eraill gael eu hystyried a'u hannog ar dir cyhoeddus. Yn olaf mae'r awydd am fwy o dir / gofod sglefrio yn awgrymu bod y gofod sglefrio presennol yn annigonol i ddiwallu anghenion y gymuned.

> Dylai cyfleusterau sglefrio gael eu cynnal a'u cadw'n dda a dylid dathlu'r gymuned gref, groesawgar hon er mwyn herio canfyddiadau negyddol di-sail.

Ymatebydd Arolwg Caerdydd, Hydref 2021


## TRI PHETH PENNAF I'W GWELLA



1. Gofod dan do



2. Dylunio plazas cyhoeddus newydd i ganiatáu / annog sglefrfyrddio



3. Mwy o dir / gofod sglefrio

## GWERSI ALLWEDDOL

Mae'r ymatebion yn nodi'n glir anfodlonrwydd cyffredinol â'r rhwydwaith amwynder sglefrio presennol, yn enwedig o ran faint o ofod sglefrio sydd, y dosbarthiad ar draws y rhanbarth, ac argaeledd amwynderau.

Roedd hanner y 10 hoff le gorau i reidio yn fannau cyhoeddus heb ganiatâd y tu allan i barciau sglefrio, gan amlygu'r awydd ymhlith cyfranogwyr yr arolwg i amwynderau sglefrio gael eu hintegreiddio i'r sffêr cyhoeddus.

Y tri gwelliant pennaf a restrwyd gan gyfranogwyr yr arolwg oedd gofod dan do, dylunio plazas cyhoeddus newydd i ganiatáu / annog sglefrfyrddio, a mwy o dir / gofod addas i sglefrio.



# PENNOD 4 - CYNLLUNIO AMWYNDERAU SGLEFRIO




Parc Sglefrio Cymunedol NE yn Frisco, Texas.
Llun: Dyluniad Parc Sgrialu New Line yn cydweithio gyda SPA Skateparks yn Austin TX fel yr adeiladwyr.


## CYFLWYNIAD

Mae penderfynu lle i leoli amwynderau sglefrio yn dasg gymhleth. Er mwyn i amwynder sglefrio fod yn llwyddiannus, mae angen ystyriaeth ofalus o nifer o feini prawf sy'n amrywio o ddosbarthiad a mynediad ledled y ddinas at rinweddau ac ystyriaethau sy'n benodol i safle. Mae'r bennod hon yn archwilio'r meini prawf hyn, gan ddadansoddi'r ddinas trwy lens sglefriwr a chynlluniwr dinas i ddarparu'r fframwaith ar gyfer rhwydwaith amwynder sglefrio sy'n gweithio i bawb.

Camau ar gyfer Adeiladu'r Rhwydwaith Amwynder Sglefrio:

1. Alinio Polisïau - Beth sydd bwysicaf?
2. Anghenion Tir - Faint sydd ei angen arnom?
3. Adeiladu Rhwydwaith - Lle mae ei angen arnom?
4. Blaenoriaethu - sut y dylem ei gyflawni?
5. Seilwaith Sglefrio Ychwanegol





Ffigur 29. Athletwr WCMX proffesiynol yn reidio ramp.
Llun: Andi Weiland | SOZIALHELDEN (CC BY-NC 2.0)

## ALINIO POLISÏAU

Mae Strategaeth Amwynderau Sglefrio Caerdydd yn cyd-fynd â nifer o gynlluniau a strategaethau presennol Cyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru. Sef plethu nodau a sicrhau bod y buddsoddiadau a wneir mewn amwynderau sglefrio yn dod â'r budd mwyaf i gymaint o bobl ag y bo modd.

## POLISI CYMDEITHASOL

| Dogfen | Sefydliad | Disgrifiad | Nodau a Aliniwyd |
|---|---|---|---|
| Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant | Cyngor Caerdydd | Mae'r strategaeth hon yn ymdrechu i frwydro yn erbyn anghydraddoldebau ac allgâu unigolion yn y ddinas trwy integreiddio cydraddoldeb ym mhopeth a wna'r Cyngor. | Mae rhwystr cynhenid isel sglefrfyrddio o ran mynediad yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd hamdden sy'n gynhwysol ac yn deg. Bydd sicrhau bod blaenoriaethu safleoedd yn cyd-fynd ag ardaloedd blaenoriaeth yn y Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn hyrwyddo synthesis y nodau hyn ymhellach. |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Llywodraeth Cymru | Nod y Ddeddf hon yw sicrhau lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. | Mae cefnogi'r gymuned sglefrio yn cyfrannu at nifer o ddangosyddion nodau'r Ddeddf gan gynnwys gwella lles meddyliol a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. |
| Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (M.A.Ll.C 2019) | Llywodraeth Cymru | Mae'r MALlC yn ystadegyn cenedlaethol sy'n sgorio incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, tai, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol mewn ardal. | Er nad oes nodau penodol yn gysylltiedig â'r MALlC, y bwriad yw helpu i lywio penderfyniadau ynghylch cyllid, rhaglenni a gwasanaethau mewn ymdrech i wella llesiant unigolion sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Bydd darparu amwynderau sglefrio o ansawdd uchel mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a mynediad at wasanaethau'r ardal honno. |

## POLISI CYNLLUNIO

| Dogfen | Sefydliad | Disgrifiad | Nodau a Aliniwyd |
|---|---|---|---|
| Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) | Cyngor Caerdydd | Y CDLl yw'r cynllun trosfwaol sy'n gosod amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer datblygu cynaliadwy dros 15 mlynedd. | Bydd lleoli amwynderau sglefrio o fewn ardaloedd twf y ddinas yn sicrhau bod y rhwydwaith amwynder sglefrio wedi ei ddiogelu i'r dyfodol ac yn gwasanaethu'r gymuned sy'n tyfu. Bydd cynllunio ar gyfer cynnwys amwynderau sglefrio yng nghamau cynnar dylunio yn sicrhau'r ffit gorau posibl o fewn y ddinas a'r rhwydwaith amwynder sglefrio. |
| CCA Seilwaith Gwyrdd Caerdydd – NCT Gofod Agored mewn Datblygiadau Newydd | Cyngor Caerdydd | Mae'r ddogfen hon yn darparu arweiniad a gwybodaeth am gadw a darparu elfennau seilwaith gwyrdd mewn datblygiadau newydd. | Mae Atodiad 4 yn amlinellu pwysigrwydd gofod i bobl ifanc ymgynnull mewn datblygiadau newydd a'r rôl y gall amwynderau sglefrio ei chwarae wrth ddarparu lle diogel a hygyrch i bobl ifanc ac oedolion ifanc. Mae'r Atodiad hefyd yn nodi ffactorau ac ystyriaethau sylfaenol ar gyfer gweithredu parciau sglefrio sy'n cael eu hailadrodd yn y Strategaeth hon. |
| Strategaeth Trafnidiaeth Caerdydd (STC) | Cyngor Caerdydd | Mae'r STC yn asio gyda'r CDLl ac yn gosod y nodau a'r amcanion ar gyfer cludo pobl, nwyddau a gwasanaethau ledled y ddinas. | Nod y STC yw cynyddu canran y teithio cynaliadwy yng Nghaerdydd. Trwy hyrwyddo'r potensial ar gyfer sglefrfyrddio a gweithgareddau eraill ar olwynion bach fel modd trafnidiaeth, mae'r Strategaeth Amwynder Sglefrio yn cyfrannu at y STC trwy ychwanegu ystyriaeth ar gyfer moddau newydd o gludiant cynaliadwy nad ydynt eto yn cael eu hystyried yn benodol. |
| Polisi Cynllunio Cymru – Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored | Llywodraeth Cymru | Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau sy'n ymwneud â chwaraeon, hamdden a mannau agored i awdurdodau cynllunio lleol wrth ddatblygu CDLlau o fewn eu hawdurdodaeth. | Mae darparu amwynderau sglefrio yn helpu i gyflawni strategaethau a amlygir yn y NCT hwn, gan gynnwys "Dringo'n Uwch" sy'n ceisio hyrwyddo chwaraeon, gweithgaredd corfforol a hamdden actif. Mae'r NCT yn nodi'n benodol bod diwallu anghenion hamdden pobl ifanc yn flaenoriaeth, yn enwedig y tu allan i ysgolion. |

# ANGHENION TIROEDD


Mae penderfynu ar faint priodol o ofod sglefrio dynodedig sydd ei angen i ddiwallu anghenion dinas yn gymhleth. Fel y pwysleisiwyd yn y broses ymgysylltu â'r cyhoedd, mae sglefrwyr a grwpiau defnyddwyr ar olwynion bach cysylltiedig yn aml yn cyfranogi mewn ardaloedd y tu hwnt i'r parciau sglefrio lawn cymaint ag y maent yn ei gyfranogi ynddynt.

Mae'r dull a ddefnyddir i sefydlu'r sail gofod sglefrio a argymhellir ar gyfer Caerdydd wedi'i addasu o'r Model Mabwysiadu Parc Sglefrio (MMPS/SAM), a ddatblygwyd gan The Skatepark Project (y Tony Hawk Foundation gynt). Mae'r dull hwn wedi cael ei ddefnyddio ers hynny i sefydlu'r gwaelodlin ar gyfer amrywiaeth eang o ddinasoedd rhyngwladol o Vancouver, BC yng Nghanada i Minneapolis, Minnesota yn UDA ymhlith eraill.

Mae Skateboard GB, y corff llywodraethu swyddogol ar gyfer sglefrfyrddio yn y DU, yn amcangyfrif bod 750,000 o bobl wedi sglefrio yn y DU yn 2020[2]. Gyda phoblogaeth amcangyfrifedig o tua 67 miliwn o bobl, mae hyn yn cyfateb i gyfradd cyfranogi o ran sglefrfyrddio yn y DU sydd tua 1.12% o'r boblogaeth. Yn seiliedig ar amcanestyniad poblogaeth i Gaerdydd yn 2040 o 385,000 o bobl, nifer amcangyfrifedig y sglefrwyr yng Nghaerdydd yn 2040 fydd 4,296[3]. Gan dybio bod yr holl grwpiau eraill sy'n defnyddio'r amwynder sglefrio fel beicwyr BMX, sglefrwyr mewn-lein, a sgwteri yn ychwanegu 50% arall, cyfanswm nifer y defnyddwyr amwynder sglefrio yn 2040 fydd 6,445.

Dim ond ffracsiwn o gyfanswm y defnyddwyr amwynder sglefrio fydd yn cymryd rhan ar adeg benodol. Gan amcangyfrif mai dim ond 25% o gyfanswm y grŵp defnyddwyr hwn y gellir eu hystyried yn 'Reidwyr Craidd' sy'n defnyddio amwynderau sglefrio o leiaf unwaith yr wythnos, ac mai dim ond 25% o'r 'Reidwyr Craidd' hyn wedyn a all fod yn defnyddio amwynderau sglefrio ar adeg benodol, amcangyfrifir mai 403 fydd y nifer fwyaf a fydd yn defnyddio llwyth

2. Skateboard GB. Ar gael yn skateboargb.org/faqs
3. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn https://gov.wales/ is-boblogaeth-amcanestyniadau




| GWTHIO | SET | TRIC | GLANIO + STOPIO |
|---|---|---|---|
| Fel arfer, enillir cyflymder trwy gicio'r bwrdd ymlaen. Bydd dau wthiad da yn cynhyrchu digon o gyflymder i wneud y rhan fwyaf o driciau. | Ar ôl i'r sglefriwr gyflymu, mae'r traed yn cael eu gosod ar y bwrdd a'u haddasu ar gyfer y tric a ddymunir. | Mae'r gamp yn cael ei berfformio gyda momentwm am ymlaen. Er bod y darlun yn dangos tric y gellid ei berfformio'n llonydd, mae'r rhan fwyaf o driciau'n dibynnu ar ryngweithio â'r tir. Silff, set o risiau, neu fancyn crwm i gyd yn cael eu defnyddio yn yr un ffordd at ddibenion nodi faint o le sydd ei angen. | Yn olaf, mae'r sglefriwr yn glanio, adennill cydbwysedd ac yn paratoi i stopio. |


Ffigur 30. Diagram o Faint o Le sydd ei Angen i Berfformio Tric. Addaswyd o'r Model Mabwysiadu Sglefrio.

rhwydwaith amwynder sglefrio Caerdydd ar unrhyw adeg yn 2040.

Mae'r cysyniad MMPS hefyd yn ystyried elfen gymdeithasol sglefrio ac i gynllunio'n iawn ar gyfer defnyddio gofod amwynder sglefrio, mae gofyn ystyried nifer lluosog o ddefnyddwyr ar yr un pryd. Mae'r model yn tynnu sylw, er y gall 10 defnyddiwr fod yn defnyddio amwynder sglefrio, dim ond un person all berfformio tric ar y rhwystr ar y tro mewn gwirionedd. O ddeall bod 150m2 yn faint cyfartalog o le sy'n angenrheidiol i berfformio tric yn ddiogel, gellir cymryd 15m2 fel y gofod priodol i bob defnyddiwr unigol mewn grŵp o 10 person.

Yn seiliedig ar y cyfrifiad hwn, cyfanswm y gofod sglefrio lleiaf sydd ei angen yn 2032 fydd 6,042m2. Yn anffodus, dim ond 1,185m2 o'r gofod amwynder sglefrio presennol sydd wedi ei wneud o goncrit ac y gellir ei gadw i'r dyfodol. Mae hyn yn gadael cyfanswm o ran gwaelodlin yr angen sy'n weddill o 4,857m2 erbyn 2032.

Dylid ystyried yr amcangyfrif hwn yn nod ceidwadol i gyrraedd y gwaelodlin darpariaeth parciau sglefrio gofynnol a dylid adeiladu amwynderau sglefrio ychwanegol lle bynnag y bo'n ymarferol.




*Defnyddir Reidiwr(wyr) i ddisgrifio sglefrfyrddwyr, beicwyr BMX, sgwteri, a gweithgareddau cysylltiedig eraill.

## ADEILADU RHWYDWAITH


**Dalgylchoedd Lleol**

Ar hyn o bryd mae gan Gaerdydd 12 cyfleuster sglefrio dan berchnogaeth gyhoeddus a 2 barc sglefrio preifat.  Mae amwynderau sglefrio presennol y ddinas wedi eu dosbarthu ar draws cymdogaethau maestrefol yn bennaf, ac fel arfer ger llaw canolfannau hamdden.

Mae'r amwynderau sglefrio presennol yn fach ac yn gyffredinol nid ydynt yn gweithredu fel cyrchfannau ar gyfer reidwyr i deithio iddynt o bob cwr o'r ddinas. Yn hytrach, maent yn gwasanaethu cymuned leol o fewn taith gerdded neu rolio fer o'u cartref.

Er bod hyn yn cynnig gwasanaeth rhagorol os ydych yn byw mewn cymdogaeth a wasanaethir gan amwynder sglefrio, mae'n arwain at fylchau mawr yn y ddinas lle mae unigolion yn cael eu gadael heb fynediad lleol neu gymhelliant i deithio pellteroedd hirach i gyrraedd yr amwynder sglefrio nesaf.

O ganlyniad, mae'r dosbarthiad presennol o amwynderau sglefrio wedi'i leoli'n dda ar draws y ddinas ond mae'n parhau i dan-wasanaethu'r ddinas yn gyffredinol. Mae'r map isod yn dangos y bylchau yn y ddinas y tu hwnt i radiws o 1km o amwynderau sglefrio presennol.




**Cydgrynhoi Cyfleusterau Sglefrio**

Yn seiliedig ar yr asesiad MMPS, dim ond 653m$^2$ o ofod amwynder sglefrio ychwanegol sydd ei angen ar Gaerdydd i ddiwallu anghenion lefel sylfaenol y gymuned sglefrio. Ac eithrio parc sglefrio Morglawdd Caerdydd fodd bynnag, mae angen adnewyddu neu datgomisiynu holl amwynderau sglefrio pren presennol y ddinas.


Mae hyn yn agor y posibilrwydd o ffordd newydd o ddarparu amwynderau sglefrio mewn modd sy'n lleihau bylchau gwasanaeth ar draws y ddinas, yn parhau i ddiwallu anghenion y gymuned, yn gost effeithlon, ac yn defnyddio'r offer cynllunio amwynder sglefrio cyfoes diweddaraf.

Yn hytrach na chynnig cynnydd dibwys mewn maint i bob un o'r lleoliadau sglefrio presennol, mae Strategaeth Amwynderau Sglefrio Caerdydd yn rhagweld rhwydwaith amwynder sglefrio newydd sy'n defnyddio parciau sglefrio mwy fel "canolfannau rhwydwaith" i wasanaethu trigolion yn lleol ac ar draws y ddinas.  Mae'r dull hwn yn defnyddio parciau sglefrio ar raddfa fwy gyda dylunio a gwaith adeiladu modern i gymell teithio o ddalgylch ehangach - gan gyrraedd mwy o bobl na'r dalgylchoedd blaenorol ar raddfa cymdogaeth.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon mae angen datgomisiynu rhai lleoliadau amwynder sglefrio presennol yn barhaol ac ailddyrannu ôl troed dau neu dri o amwynderau llai i un parc sglefrio mwy.




Ffigur 31.  Diagram o'r dalgylchoedd presennol




Ffigur 32.  Diagram o'r strategaeth gydgrynhoi arfaethedig

## ADEILADU RHWYDWAITH

### MANTEISION Y DULL CYDGRYNHOI


- Mynediad mwy cyfartal o bob rhan o'r ddinas
- Llai o straen ar amserlen cynnal a chadw yn sgil llai o safleoedd i ymweld â nhw
- Gwell cyfle i ymgynnull cymdeithasol ac adeiladu cymunedol o ddalgylchoedd mwy

**Lleoli Parciau Sglefrio Canolfannau Rhwydwaith**

Mae dod o hyd i'r lleoliadau cywir ar gyfer parciau sglefrio canolfannau rhwydwaith yn hanfodol i lwyddiant y dull cydgrynhoi. Gyda llai o amwynderau sglefrio yn y rhwydwaith, mae pwysigrwydd cymharol pob parc sglefrio unigol yn cynyddu. Os yw parciau sglefrio wedi'u lleoli'n wael, bydd y rhwydwaith yn llai abl i gefnogi'r gymuned sglefrio.


Defnyddir tri phrif faen prawf ar gyfer pennu'r lleoliadau gorau ar gyfer parciau sglefrio canolfannau rhwydwaith:

1. Dwysedd a Thwf Poblogaeth
2. Hygyrchedd
3. Tegwch



### Dwysedd a Thwf Poblogaeth

O fewn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mae ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n "Safleoedd Strategol" o dwf yn y ddinas.  Bydd yr ardaloedd hyn yn profi newid sylweddol dros y blynyddoedd nesaf a bwriedir iddynt gael amrywiaeth o dai newydd, cyfleoedd cyflogaeth a defnyddiau cymunedol eraill.
Mae'r ardaloedd a amlygwyd yn y map yn dangos y safleoedd strategol a nodwyd gan adran gynllunio'r Cyngor.





### Hygyrchedd

Mae sicrhau bod lleoliadau amwynder sglefrio'r dyfodol yn cael eu hintegreiddio'n ddi-dor i'r rhwydwaith trafnidiaeth presennol ac yn y dyfodol yn sicrhau y gall pobl sy'n teithio i barciau sglefrio wneud hynny'n hawdd a heb rwystrau.

O'r opsiynau lluosog, llwybrau teithio llesol fel llwybrau beicio yw'r pwysicaf wrth leoli parciau sglefrio canolfannau rhwydwaith Caerdydd. Maent yn darparu'r opswn mwyaf cynaliadwy i fynd ar draws y ddinas ac maent yn opswn rhwystr isel i unigolion o oedrannau a chefndir amrywiol.

Mae cludiant cyhoeddus hefyd yn ddull pwysig i'w ystyried wrth asesu hygyrchedd.  Mae trenau Caerdydd yn cysylltu rhannau pwysig o ardal y ddinas ac er nad wedi ei ddarlunio ar y map, mae'n gweithio ar y cyd â'r rhwydwaith bws i gynnig dewis cynaliadwy cost isel amgen i yrru.




# BLAENORIAETHU

Mae gan sglefrfyrddio a chwaraeon cysylltiedig y potensial i ddarparu cyfleoedd hamdden rhwystr isel a nifer o fanteision ychwanegol yn deillio o iechyd corfforol, iechyd meddwl, adeiladu cymunedol ymhlith eraill.  Mae rhoi mynediad teg i breswylwyr y ddinas i amwynderau sglefrio o ansawdd uchel a'r buddion y maent yn eu cynnig yn nod canolog ar gyfer Strategaeth Amwynder Sglefrfyrddio Caerdydd.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC.) yn cynnig canllaw ar flaenoriaethu cyfleusterau sglefrio drwy nodi ardaloedd yn y ddinas sy'n profi lefelau cymharol uwch o amddifadedd. Tra bod y MALlC yn cynnwys ffactorau fel cyflogaeth ac addysg na chaiff eu heffeithio'n uniongyrchol gan y ddarpariaeth amwynderau sglefrio, maent yn dal i fod yn ardaloedd â blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi cymunedol a byddant yn elwa o gynnwys amwynderau sglefrio. Am y rheswm hwn, gellir defnyddio dynodiadau MALlC fel offeryn ar gyfer blaenoriaethu trefn prosiectau adeiladu amwynder sglefrio newydd, gydag amwynderau sglefrio newydd yn cael eu datblygu mewn ardaloedd MALlC â sgôr uwch yn gyntaf.

Mae'r ardaloedd tywyllach ar y map yn dynodi ardaloedd MALlC â blaenoriaeth uwch




# SEILWAITH SGLEFRIO YCHWANEGOL

### Mannau a Dotiau Sglefrio mewn Parciau

Er y bydd canolfannu'r rhwydwaith yn gweithredu fel sylfaen ar gyfer y rhwydwaith amwynder sglefrio yng Nghaerdydd, mae llawer o ffyrdd ychwanegol i ategu at y system lle mae cyfleoedd yn codi.

Er enghraifft, mae uwchraddio ac adnewyddu parciau presennol yn ogystal â datblygu parciau newydd yng Nghaerdydd yn gyfle gwych i integreiddio amwynderau sglefrio ar raddfa lai fel mannau a dotiau. Gall hyn fod mor syml â chynllunio i gryfhau elfennau cynlluniedig fel seddi neu ymylon sy'n gweddu i sglefrio, neu yn fwy pwrpasol gyda gofod sglefrio dynodedig fel elfen yn y dyluniad.

Bydd integreiddio mannau a dotiau sglefrio yn manteisio ar ac yn dilyn amserlenni a chynlluniau presennol ar gyfer uwchraddio, adnewyddu a datblygiadau mewn parciau. Fodd bynnag, dylid ystyried natur rhwystr isel sglefrfyrddio a champau cysylltiedig ar olwynion bach, yn arbennig o bwysig pan fydd uwchraddio parciau yn digwydd o fewn parthau blaenoriaeth MALIC uchel neu ardaloedd y gwyddys eu bod â rhwystrau eraill i hamdden.



Ffigur 33. Grŵp o sglefrwyr yn reidio mewn man yn Texas, UDA.
Llun: New Line Skateparks

## Gofodau Dinesig i Sglefrio

Er mai cyfyngedig yw'r cyfleusterau sglefrio â chaniatâd, mae canol y ddinas yn gyrchfan boblogaidd i'r gymuned sglefrfyrddio yng Nghaerdydd. Mae plazas cyhoeddus fel Sgwâr Callaghan yn cynnig man agored i sglefrwyr gyda rhwystrau natur stryd a lleoliad canolog i gwrdd a chymdeithasu.


Fel yr amlygwyd yn yr adroddiad hwn, gall sglefrfyrddio stryd sydd heb ei gynllunio fod yn ffynhonnell anghydfod ar dir cyhoeddus rhwng sglefrwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Felly, mae dod o hyd i ffyrdd o ddylunio integreiddio amwynderau sglefrio'n fwriadol i ganol y ddinas yn allweddol i ddiwallu anghenion y gymuned sglefrio yng Nghaerdydd a lliniaru ffynonellau gwrthdaro a allai fod fel arall.

Mae Strategaeth Amwynder Sglefrio Caerdydd yn cynnig ardal â blaenoriaeth ar gyfer ymgorffori mannau a dotiau sglefrio wrth ddatblygu a/neu adnewyddu mannau cyhoeddus yng nghanol y ddinas. Er y gellir integreiddio mannau a dotiau sglefrio i'r dirwedd mewn unrhyw ran o ardal y ddinas, mae'r ardal hon wedi'i blaenoriaethu oherwydd yma ceir  y budd mwyaf i'r gymuned sglefrio a'r potensial mwyaf ar gyfer cydweithredu â phrosiectau datblygu dinesig.

O fewn yr ardal â blaenoriaeth, anogir rheolwyr tir a datblygwyr i ddod o hyd i gyfleoedd i gynllunio ar gyfer integreiddio sglefrio yn fwriadol yn eu dyluniadau o fannau cyhoeddus. Gellir cyflawni hyn drwy amwynderau ac ardaloedd sglefrio dynodedig, dodrefn safle wedi ei atgyfnerthu, llai o ddefnydd o atalwyr sglefrio, llwybrau cylchrediad amgen ac ystyriaethau ychwanegol wrth gynllunio a dylunio safle.

Prif Ystyriaethau:

1. Osgoi gwrthdaro ag ardaloedd busnes a masnach
2. Osgoi ardaloedd mawr i gerddwyr lle mae symudiad cerddwyr yn allweddol
3. Osgoi gwrthdaro â cherbydau, gwasanaethau brys, rheoli gwastraff, a gwasanaethau seilwaith pwysig eraill




**Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer adolygu cyfleoedd ar gyfer Mannau Sglefrio Dinesig**



## Sglefrio fel Trafnidiaeth

Mae rhwydwaith trafnidiaeth Caerdydd yn esblygu tuag at ddewisiadau cynaliadwy, hygyrch ac amgen i deithio mewn car. Mae gan Gyngor Caerdydd nifer o fentrau ar y gweill i wella'r ffordd y mae trigolion yn symud drwy ardal y ddinas, yn fwyaf nodedig Strategaeth Trafnidiaeth Caerdydd (STC) a Chynllun Trafnidiaeth Leol (CTL).

Mae llawer o'r cynllunio hyd yma wedi canolbwyntio ar wella opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â seilwaith beicio a cherdded i breswylwyr.  Fodd bynnag, canfuwyd bod sglefrfyrddio hefyd yn ffordd boblogaidd o fynd o gwmpas yng Nghaerdydd gyda 36% o'r ymatebwyr i'r arolwg cyhoeddus yn nodi eu bod yn sglefrfyrddio fel modd o deithio. Gall dod â sglefrfyrddio a gweithgareddau olwynion bach cysylltiedig i'r drafodaeth ynghylch opsiynau cludiant gweithredol gynnig mantais ychwanegol i helpu'r Cyngor gyrraedd ei nodau a amlygwyd yn yr STC a'r CTL. Gall ystyriaethau syml ond pwysig wrth uwchraddio seilwaith sy'n ymgorffori persbectif grwpiau defnyddwyr olwynion bach gael effaith ddwys ar eu hyfywedd fel dulliau teithio. Er enghraifft, bydd sicrhau bod llwybrau beicio newydd yn ddigon eang i ddarparu ar gyfer defnyddwyr lluosog a phasio, arwynebau cyson a llyfn, a graddiant llethrau yn cael eu cadw mor isel ag y bo modd, i gyd yn effeithio'n ddramatig ar y tebygolrwydd i bobl ddewis dull teithio ar olwynion bach dros gerbyd modur. Gan fod rhai o'r mentrau a amlygir yn STC a'r CTL eisoes ar y gweill, bydd angen ymgorffori gwelliannau ar gyfer grwpiau defnyddwyr olwynion bach lle mae hyblygrwydd yn bodoli o hyd.



Ffigur 34. Sglefriwr yn perfformio tric wrth sglefrio ar hyd llwybr beicio ar wahan.
Llun: Wendelin Jacober

**Parciau Sglefrio Cystadlaethau a Chyrchfannau**

Fel prifddinas Cymru, mae Caerdydd yn chwarae rhan genedlaethol bwysig o ran chwaraeon. Mae'r pentref chwaraeon rhyngwladol ar gyrion de-orllewinol y ddinas yn cynnal amrywiaeth o gyfleusterau hyfforddi chwaraeon lefel uchel ac mae ganddo ofod sylweddol ar ôl o hyd i gefnogi campau eraill. Gall sglefrfyrddio fod yn gyfleuster arall sy'n cael ei ychwanegu at y gofod cenedlaethol hwn ar gyfer cyflawni yn y byd chwaraeon. Byddai hyn yn ychwanegiad sylweddol a allai gefnogi athletwyr lleol a chenedlaethol a allai fod eisiau cystadlu'n rhyngwladol.  Er nad yw tirwedd sglefrio fel rhan  o rwydwaith sglefrio'r ddinas wedi'i neilltuo ar gyfer y potensial hwn, gallai cyfleuster lefel uchel ddod â sglefrfyrddio i'r lefel nesaf yng Nghaerdydd a Chymru.  Dylai lleoliad newydd o'r math hwn geisio cyllid eang o bob lefel o lywodraeth a hyd yn oed nawdd preifat.

Mae'r pentref chwaraeon rhyngwladol yn ardal drefol gynyddol yn y ddinas ac mae wedi dod yn galon ar gyfer chwaraeon cystadleuaeth ar lefel uchel yng Nghymru. Mae'r ardal yn gartref i nifer o gyfleusterau chwaraeon gan gynnwys cylch sglefrio iâ yn ogystal â chyfleusterau hyfforddi lefel Olympaidd fel cyfleuster Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd yn ogystal â Phwll Rhyngwladol Caerdydd.

Mae'r ardal hon yn y ddinas eisoes yn cael ei gwasanaethu'n gymharol dda gan barc sglefrio presennol Morglawdd Caerdydd ac felly mae'n lleoliad â blaenoriaeth is o fewn y rhwydwaith ledled y ddinas. Serch hynny, mae'r lleoliad yn addas iawn ar gyfer  cystadlaethau neu barc sglefrio ar lefel cyrchfan fel cyfleuster hyfforddi ar gyfer sglefrfyrddio lefel Olympaidd.



Ffigur 35. Parc sglefrio The Forks yn Winnipeg, Canada.
Llun: New Line Skateparks



# PENNOD 5 - ARGYMHELLION



Llun: Clément G. (cc-by-sa-2.0 Trwydded)

## CYFLWYNIAD

Yn seiliedig ar restr bresennol y Cyngor, yr adborth a gasglwyd wrth ymgysylltu â'r cyhoedd, a'r dadansoddiad o amwynderau sglefrio a amlinellir yn y penodau blaenorol, mae Strategaeth Amwynderau Sglefrfyrddio Caerdydd yn cyflwyno cyfres o argymhellion allweddol i ddiwallu anghenion y gymuned sglefrio nawr ac yn y dyfodol.

Mae pum maes gweithredu a fydd yn gweld y cynllun hwn yn cael ei gyflawni.  Adeiladu rhai newydd a datgomisiynu hen barciau sglefrio mewn parciau, mannau a dotiau mewn parciau, mannau sglefrio dinesig, beicffyrdd addas i sglefrio, a pharc sglefrio cystadlu / cyrchfan. Mae'r argymhellion ar gyfer pob maes gweithredu wedi'u crynhoi yn y tabl ar y dudalen nesaf.

Ar draws pob maes gweithredu, mae'n bwysig sicrhau bod amwynderau sglefrio wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch ac yn gynhwysol i amrywiaeth o ddefnyddwyr. Bydd yr ystyriaethau dylunio hyn yn amrywio yn seiliedig ar amodau'r safle ond gallant gynnwys:

- gwella goleuadau stryd,
- llwybrau a gynhelir o amgylch y safle,
- mwy o seddi a mannau i wylio,
- mynedfeydd ehangach i mewn ac allan o ardaloedd,
- creu ardaloedd a nodweddion pwrpasol i ddechreuwyr,
- israniad gofod i sicrhau nad yw grwpiau unigol yn dominyddu'r ardal, a
- darpariaeth ddigonol o gyfleusterau toiled.



Ffigur 36. Sglefriwr yn gwthio trwy barc sglefrio yn Vancouver, BC, Canada.
Llun: Strategaeth CitySkate

# CRYNODEB O'R CYNLLUN GWEITHREDU ALLWEDDOL

| ARDAL WEITHREDU | CAM GWEITHREDU ALLWEDDOL |
|---|---|
| Adeiladu o'r Newydd Mewn Parciau | 1. Sicrhau cyfleusterau sglefrio o ansawdd uchel a hirhoedlog. |
| | 2. Adeiladu pedwar 'Canolfan Rhwydwaith' newydd ac un parc sglefrio graddfa "Cymdogaeth" newydd i weithredu fel sylfaen y rhwydwaith amwynder sglefrio. |
| Mannau a Dotiau mewn Parciau | 1. Cynnwys mannau a dotiau sglefrio yn y rhestr o eitemau rhaglen posibl wrth uwchraddio neu ddylunio parciau cymdogaeth newydd. |
| Mannau Sglefrio Dinesig | 1. Gweithio gydag Adrannau Cyngor Caerdydd i ddod o hyd i fannau a dotiau sglefrio dros dro neu barhaol newydd ar dir cyhoeddus. |
| | 2. Cydweithio â sefydliadau fel ysgolion Cynradd neu Uwchradd i archwilio creu amwynderau sglefrio fel rhan o adnewyddiadau mewn lleoliadau addysgol a mannau amwynder cysylltiedig. |
| | 3. Ar diroedd preifat a mannau cyhoeddus newydd a ariennir yn breifat, annog ddatblygwyr preifat i ddarparu nodweddion neu fannau sglefrio fel rhan o ddarparu amwynderau cyhoeddus lle bo hynny'n briodol ac yn gydnaws â'r datblygiad a defnydd cysylltiedig. |
| | 4. Archwilio cyfleoedd ar gyfer amwynderau sglefrio dan do boed mewn adeiladau cyhoeddus neu breifat neu o dan seilwaith priffyrdd presennol. |
| Beicffyrdd Addas i Sglefrio | 1. Chwiliwch am gyfleoedd i integreiddio mannau  a dotiau sglefrio wrth uwchraddio beicffyrdd presennol neu greu rhai newydd yn y ddinas. |
| | 2. Archwilio ffyrdd o wella cysylltiadau beicffyrdd rhwng gwahanol amwynderau sglefrio ac arosfannau cludiant cyflym i gefnogi hygyrchedd campau ar olwynion bach. |
| | 3. Ystyried mynediad olwynion i'r rhwydwaith beicffyrdd cyffredinol i gefnogi sglefrfyrddio fel modd pwysig o deithio cynaliadwy. |
| Parc Sglefrio Cystadleuaeth / Cyrchfan | 1. Ystyried a ddylai Caerdydd fod yn gartref i gyfleuster hyfforddi neu gystadlu sglefrfyrddio yn y Pentref Rhyngwladol. |
| | 2. Ymchwilio i gyfleoedd cyllido allanol ac ychwanegol ar gyfer creu cyfleuster hyfforddi ar lefel cystadleuaeth. |

# MEYSYDD BLAENORIAETH AR GYFER PARCIAU SGLEFRIO

Bydd canolfan rwydwaith ar raddfa fwy a pharciau sglefrio ar raddfa cymdogaeth yn greiddiol i'r rhwydwaith sglefrio, gan ddarparu lleoliadau cyrchfan i feicwyr o bob cwr o'r ddinas.  Bydd y rhain yn cael eu lleoli i optimeiddio dosbarthiad a hygyrchedd.  Mae blaenoriaethu eu cyflwyno wedi ei seilio ar fapio'r MALIC.


Gall casgliad wedi ei gydgrynhoi o barciau sglefrio "Canolfannau Rhwydwaith" roi cymhelliant i ddefnyddwyr o ardaloedd mwy ar draws y ddinas. Fel rhwydwaith cysylltiedig, mae'r parciau sglefrio yn cynnig "dalgylchoedd" mwy dros diroedd y Cyngor.

Camau Gweithredu Allweddol

1. Sicrhau cyfleusterau sglefrio o ansawdd uchel a hirhoedlog.
2. Adeiladu un 'Canolfan Rwydwaith' newydd a phedwar parc sglefrio newydd ar raddfa "Cymdogaeth" i weithredu fel sylfaen y rhwydwaith amwynder sglefrio.

| Mannau a Dotiau Trefol gyda Datblygiadau Newydd | | |
|---|---|---|
| Cam Gweithredu Allweddol 1 | | Maint a Awgrymir |
| 1.1 | Sefydlu rhestr o gontractwyr ac ymgynghorwyr cymwys a gymeradwywyd ymlaen llaw sy'n arbenigo mewn dylunio ac adeiladu parciau sglefrio | Dd/B |
| 1.2 | Ymgysylltu â'r gymuned sglefrio i sicrhau bod y parciau sglefrio wedi'u cynllunio i weddu anghenion penodol y grŵp defnyddwyr | Dd/B |
| 2.1 | Adeiladu parc sglefrio Cymdogaeth yn nwyrain Caerdydd | 1,000m$^2$ |
| 2.2 | Adeiladu parc sglefrio Cymdogaeth yng nghanol Caerdydd | 1,200m$^2$ |
| 2.3 | Adeiladu parc sglefrio Cymdogaeth yng ngorllewin Caerdydd | 1,200m$^2$ |
| 2.4 | Adeiladu parc sglefrio Cymdogaeth yng ngogledd Caerdydd | 1,200m$^2$ |
| 2.5 | Adeiladu parc sglefrio Canolfan rwydwaith yn ne Caerdydd | 2000m$^2$ |

TEIPOLEGAU AMWYNDER SGLEFRIO




PARC SGLEFRIO CYMDOGAETH
600m$^2$ – 1,200m$^2$




PARC SGLEFRIO CANOLFAN RHWYDWAITH
Mwy na 1,200m$^2$


Dalgylch Gorllewin Caerdydd




Dalgylch Gogledd Caerdydd




Dalgylch Dwyrain Caerdydd




Dalgylch Canol Caerdydd



Dalgylch De Caerdydd



Ardaloedd Blaenoriaeth Arfaethedig ar gyfer Parciau Sglefrio Canolfannau Rhwydwaith



# DEWIS SAFLE ADDAS AR GYFER AMWYNDER SGLEFRIO

Mae ystod eang o feini prawf i'w hystyried wrth ddewis safle ar gyfer amwynder sglefrio newydd. Bydd y meini prawf hyn hefyd yn amrywio yn dibynnu ar faint yr amwynder sglefrio, gyda rhai mwy o faint fel rheol yn gofyn am ystyriaethau mwy safle-benodol. Am ddadansoddiad manwl, gweler y Matrics Meini Prawf Dewis Safle ar y dudalen nesaf.

**Cynllunio Cymdogaeth**

Mae cynllunio cymdogaeth yn ystyried meini prawf ar raddfa ehangach a fydd yn effeithio ar addasrwydd amwynder sglefrio gan gynnwys categorïau cydnawsedd a mynediad.

Mae cydnawsedd yn ystyried pethau fel defnydd tir sensitif a defnydd sy'n fuddiol i'r ddwy ochr. Gall defnydd preswyl fod yn sensitif i sŵn ac angen eu lleoli bellter i ffwrdd tra gall ysgolion, canolfannau hamdden neu ddefnyddiau masnachol a diwydiannol fod yn fuddiol neu heb effaith.

Mae mynediad yn ystyried y gallu i reidwyr gyrraedd y safle, yn ddelfrydol trwy deithio llesol neu gyhoeddus.

**Cynllunio Safle-benodol**

Mae cynllunio safle-benodol yn ystyried y meini prawf mwy manwl i benderfynu a yw nodweddion y safle yn cynnig eu hunain i amwynder sglefrio ai peidio ac mae'n cynnwys categorïau addasrwydd safle ac integreiddio tirwedd.

Mae addasrwydd safle yn ymdrin ag amrywiaeth eang o ffactorau - o fynediad i waith adeiladu ac ystyriaethau o ran pryderon gwelededd a diogelwch. Er enghraifft, safle penodol heb welededd ac a fydd yn fwy tueddol o ddioddef fandaliaeth ac ymddygiad esgeulus.

Mae integreiddio tirwedd yn ystyried nodweddion presennol y dirwedd ac a allant gefnogi amwynder sglefrio ai peidio. Er enghraifft, sut y gall coed sefydledig gael eu heffeithio wrth gyflwyno amwynder sglefrio.

**Cefnogi Amwynderau**

Dylid rhoi ystyriaeth ychwanegol i argaeledd amwynderau ategol fel yr amlinellir yn y siart isod.

| NODWEDD | DOT | MAN | CYMDOGAETH | CANOLFAN RHWYDWAITH |
|---|---|---|---|---|
| Biniau | X | X | X | X |
| Meinciau Integredig neu Annibynnol | | | X | X |
| Ffynhonnau, Tapiau neu Dai Bwyty/Caffis gyda Dŵr | | X | X | X |
| Strwythur Cysgod / Coed | | X | X | X |
| Goleuo | | | X | X |
| Ardal Bwrdd Picnic | | | X | X |
| Toiledau Ger Llaw | | | X | X |
| Toiledau Ar y Safle | | | | X |
| Parcio Ar y Stryd | | | | X |
| Parcio Oddi Ar y Stryd | | | | X |
| Darpariaethau Bwyd yn y Cyffiniau | | | | X |

| Meini Prawf Dethol Safle | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Graddfa | Categori | Meini Prawf | Disgrifiad | Dot | Man | Cymdogaeth | Canolfan Rhwydwaith |
| | | | | Lefel Ystyriaeth | | | |
| Cynllunio Cymdogaeth | Cydnawsedd | Ardal Glustogi | Digon o le rhwng cartrefi ac amwynderau sglefrio i liniaru effeithiau sŵn (>30m) | Canolig | Canolig | Mawr | Mawr |
| | | Defnyddiau Cyfagos i'r Parc | Cyfle i gydleoli gyda chyfleusterau hamdden ac amwynderau eraill | Bach | Canolig | Mawr | Mawr |
| | | Defnydd Tir Ger Parciau | Cydnawsedd â defnydd tir ger parciau | Bach | Bach | Canolig | Mawr |
| | Mynediad | Beicffordd | Rhesymol hygyrch ar feicffordd | Bach | Canolig | Mawr | Mawr |
| | | Tramwyo Cyhoeddus | Rhesymol hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus | Bach | Canolig | Mawr | Mawr |
| | | Canolbwyntio ar Gerddwyr | Lleoliad gyda photensial cerdded uchel | Canolig | Mawr | Mawr | Canolig |
| Safle-benodol | Addasrwydd y Safle | Adeiladadwyedd | Lleoliadau hawdd adeiladu arnynt | Bach | Canolig | Mawr | Mawr |
| | | Gwelededd | Lleoliadau sy'n haws cadw golwg ar y gofod amwynder i wella diogelwch ac osgoi niwsans | Canolig | Canolig | Mawr | Mawr |
| | | Y Dirwedd Bresennol | Yn gallu gweithio o amgylch llystyfiant gwerth uchel, goleddf a hydroleg | Canolig | Canolig | Mawr | Mawr |
| | Integreiddio Tirwedd | Integreiddio Dŵr Storm | Gofynion Cyrff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy a chyfleoedd i ddarparu ar gyfer a chynnal dŵr storm ar y safle | Bach | Bach | Canolig | Mawr |
| | | Lleihau Sŵn | Defnyddio nodweddion tir neu dirwedd presennol i helpu gyda lliniaru sŵn | Bach | Canolig | Mawr | Mawr |
| | | Cysgod Rhag Gwynt | Defnyddio nodweddion ffurf tir neu dirwedd presennol i helpu gyda gwynt gormodol ar draws y safle | Bach | Canolig | Mawr | Mawr |

# MANNAU A DOTIAU MEWN PARCIAU

Er bod parciau sglefrio mwy (ar raddfa gymdogaeth, a graddfa canolfan rhwydwaith) yn gwasanaethu'r ddinas ehangach, bydd mannau a dotiau sglefrio yn gwella cysylltedd rhwydwaith a dosbarthiad amwynderau o amgylch Caerdydd. Mae mannau a dotiau yn elfennau pwysig yn y strategaeth gyffredinol a dylid eu hystyried yng nghanol y ddinas yn ogystal ag ardaloedd llai poblog y ddinas.

Cam Gweithredu
Cynnwys mannau a dotiau sglefrio yn y rhestr o eitemau rhaglen posibl wrth uwchraddio neu ddylunio parciau cymdogaeth newydd:

1. Gofyn bod Cynigion ar gyfer dyluniadau parciau newydd i gynnwys amwynderau sglefrio i'w hystyried wrth raglennu parciau. Gall hyn gynnwys mannau sglefrio pwrpasol, dodrefn addas i sglefrio, celf sglefrio, ymhlith nodweddion sglefrio eraill.


2. Hyrwyddo ac ymgorffori manylion dodrefnu safle amgen sy'n wahanol i'r ymagwedd atal sglefrio nodweddiadol ac sy'n cynyddu gwydnwch ac yn caniatáu defnydd gan sglefrfyrddau ac olwynion bach.

3. Cynnwys y gymuned sglefrio wrth ddylunio ac adolygu nodweddion sglefrio i sicrhau eu bod yn diwallu eu hanghenion penodol.




Ffigur 37. Man sglefrio mewn parc yn Quebec, Canada. Llun: New Line Skateparks

TEIPOLEGAU AMWYNDER SGLEFRIO



DOT SGLEFRIO
Yn llai na 150$m^2$



MAN SGLEFRIO
150$m^2$ - 600$m^2$



Ffigur 38. Dot sglefrio wedi'i integreiddio i barc yn Texas, UDA.
Llun: New Line Skateparks

# MANNAU SGLEFRIO DINESIG

Mae calon cymuned sglefrio Caerdydd yng nghanol y ddinas.  Er bod parc sglefrio canolfan rhwydwaith wedi'i leoli'n ganolog yn y rhan hon o'r ddinas yn hanfodol i'r rhwydwaith cyffredinol, roedd yn amlwg trwy'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd bod yna awydd i integreiddio mannau sglefrio â thir cyhoeddus. Gall cynllunio rhagweithiol ar gyfer 'parthau addas i sglefrio' yng nghanol y ddinas ddiwallu'r angen cymunedol hwn a hefyd oresgyn peth o'r gwrthdaro o ran cyd-fyw heb ei gynllunio sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

Cam Gweithredu Allweddol 1
Gweithio gydag Adrannau Cyngor Caerdydd i ddod o hyd i fannau a dotiau sglefrio dros dro neu barhaol newydd ar dir cyhoeddus.

Cam Gweithredu Allweddol 2
Cydweithio â sefydliadau fel ysgolion cynradd neu uwchradd i archwilio creu amwynderau sglefrio fel rhan o adnewyddiadau mewn lleoliadau addysg a mannau amwynder cysylltiedig.

Cam Gweithredu Allweddol 3
Ar diroedd preifat a mannau cyhoeddus newydd a ariennir yn breifat, annog datblygwyr preifat i ddarparu nodweddion neu fannau sglefrio fel rhan o ddarparu amwynderau cyhoeddus lle bo hynny'n briodol a lle bo cydnawsedd â'r datblygiad a'r defnyddiau cysylltiedig.

Cam Gweithredu Allweddol 4
Archwilio cyfleoedd ar gyfer amwynderau sglefrio dan do boed mewn adeiladau cyhoeddus neu breifat neu o dan seilwaith priffyrdd presennol ac ati.



Ffigur 39. Mae llwybr cylchredeg eilaidd yn caniatáu ar gyfer sglefrio a mynediad i gerddwyr.
Llun: New Line Skateparks

## 'GWNEUD A PHEIDIO GWNEUD' O RAN MANNAU SGLEFRIO DINESIG

| | GWNEUD | PEIDIO GWNEUD |
|---|---|---|
| DIFFINIO GOFOD | Sicrhau bod defnyddiau presennol yn cael ei gynnal ar ôl cyflwyno amwynder sglefrio. | Gorgyffwrdd rhwng defnyddiau anghydnaws heb ofod digonol. |
| | Defnyddio dodrefn safle, deunyddiau, blychau plannu, ac ardaloedd tirlunio meddal y plaza i awgrymu defnyddiau sylfaenol. | Ffensio ardaloedd i mewn yn llwyr oni bai bod angen. |
| | Creu cyfleoedd i rannu amwynderau'r safle fel mannau gorffwys, ardaloedd eistedd a ffynhonnau dŵr. | Creu ardaloedd unigryw ar gyfer grwpiau defnyddwyr penodol. |
| CYLCHREDIAD | Sicrhau nad yw eich amwynder sglefrio yn ymyrryd â chylchrediad sylfaenol cerddwyr trwy'r gofod. | Rhoi nodweddion sglefrio mewn ardaloedd cerddwyr prysur. |
| | Manteisio ar led heb ei ddefnyddio mewn llwybrau cylchrediad i 'chwyddo' ardal ar gyfer amwynder sglefrio. | Dibynnu ar ardaloedd cerddwyr prysur neu dagfeydd fel ardaloedd 'rhedeg i mewn' neu 'rhedeg allan' o nodwedd sglefrio. |
| DEUNYDDIAU | Defnyddio arwynebau â gwead neu fwy garw ar gyfer ardaloedd nad ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer campau ar olwynion bach. | Gosod nodweddion atal sglefrfyrddio mewn ardaloedd sy'n cael eu tanddefnyddio, heb eu rhaglennu neu sydd ddim yn brysur. |
| | Defnyddio dur, carreg neu ddeunydd arall sy'n anodd eu treulio wrth adeiladu nodweddion sglefrio fel silffoedd a seddi. | Defnyddio deunyddiau ag arwyneb bras o fewn ardaloedd 'rhedeg i mewn' neu 'rhedeg allan' i nodwedd sglefrio. |
| GWELEDEDD | Canfod cyfleoedd ar gyfer nodweddion sglefrio mewn lleoliadau amlwg o fewn y gofod. | Lleoli amwynderau sglefrio mewn lleoliadau cudd neu ddiarffordd. |
| | Sicrhau llinellau gwelededd clir o amgylch nodweddion sglefrio. | Creu corneli dall, yn enwedig yn yr ardaloedd 'rhedeg i fyny' a 'rhedeg allan'. |

## BEICFFYRDD ADDAS I SGLEFRIO

Bydd rhwydwaith beicffyrdd ledled y ddinas sy'n addas i sglefrio yn helpu i annog teithio llesol, wrth gysylltu amwynderau, cymdogaethau a nodau trefol presennol ac yn y dyfodol.

Cam Gweithredu Allweddol 1
Ystyried gwelliannau cysylltiedig ag olwynion bach i'r rhwydwaith beicffyrdd cyffredinol i gefnogi sglefrfyrddio fel modd pwysig o deithio cynaliadwy.

Cam Gweithredu Allweddol 2
Chwilio am gyfleoedd i integreiddio mannau a dotiau sglefrio wrth uwchraddio beicffyrdd presennol neu rai newydd yn y ddinas.


Cam Gweithredu Allweddol 3
Archwilio ffyrdd o wella'r cysylltiadau beicffyrdd rhwng gwahanol amwynderau sglefrio ac arosfannau cludiant cyflym i gefnogi hygyrchedd campau ar olwynion bach.




Ffigur 40. Sglefriwr yn gwthio ar hyd beicffordd.
Llun: Maksim Goncharenok.

## GWELLIANNAU BEICFFYRDD ADDAS I SGLEFRIO


Mae'r pedair ystyriaeth allweddol ganlynol yn gwneud beicffordd yn fwy 'addas i sglefrio' a gallant helpu gyda gwelliannau yn y dyfodol i gefnogi rhwydwaith sglefrio cyffredinol. Gall yr ystyriaethau hyn fod yn berthnasol i feicffyrdd mewn parciau a thiroedd dinasoedd a chefnogi'r hygyrchedd cyffredinol i'r rhai sydd ag anghenion symudedd.




Arwyneb llyfn



Cynyddu Lled



Arafu Traffig



Integreiddio Mannau a Dotiau



Ffigur 41. Beiciwr yn pasio dot sglefrio wedi'i integreiddio i'r beicffordd yn BC, Canada.
Llun: Travis Martin

# PARCIAU SGLEFRIO CYSTADLAETHAU A CHYRCHFANNAU

Mae gan Gaerdydd, fel prifddinas, gyfle i ddod yn ganolfan sglefrfyrddio lefel uchel yng Nghymru a hefyd yn y DU ehangach. Byddai creu cyfleuster sglefrio i lefel cystadleuaeth yn gosod Caerdydd fel cyrchfan ar gyfer sglefrfyrddio lefel uchel ac yn cefnogi twf y gymuned sglefrio tuag at gystadlaethau rhyngwladol fel y Gemau Olympaidd. Mae'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol yn cynnig cyfle unigryw i greu parc sglefrio sydd cystal â'r cyfleusterau lefel Olympaidd eraill yn yr ardal.

Cam Gweithredu Allweddol 1
Ystyried a ddylai Caerdydd fod yn gartref i gyfleuster sglefrfyrddio hyfforddi neu gystadlu yn y Pentref Rhyngwladol.

Cam Gweithredu Allweddol 2
Ymchwilio i gyfleoedd cyllido allanol ac ychwanegol ar gyfer creu cyfleuster hyfforddi lefel cystadleuaeth.



Ffigur 42. Parc sglefrio Vandergriff yn Texas, UDA.
Llun: New Line Skateparks

## ARGYMHELLIAD O AMSERLIN

Mae'r amserlin ganlynol yn dangos y drefn amser a argymhellir ar gyfer pob un o'r pum maes gweithredu hyd at 2032. O fewn pob colofn o'r amserlin, rhestrir y meysydd gweithredu yn nhrefn blaenoriaeth o'r top i'r gwaelod. Pan fydd eitemau gweithredu yn mynd rhagddynt, maent wedi'u cynnwys fel band sy'n ymestyn ar hyd yr amserlin.

2023 — 2025 → 2032

- Parc Sglefrio Cymdogaeth Newydd — Dwyrain Caerdydd ($600m^2$ - $1200m^2$)
- Parc Sglefrio Cymdogaeth Newydd — Canol Caerdydd ($600m^2$ - $1200m^2$)
- Parc Sglefrio Cymdogaeth Newydd — Gorllewin Caerdydd ($600m^2$ - $1200m^2$)
- Parc Sglefrio Cymdogaeth Newydd — Gogledd Caerdydd ($600m^2$ - $1200m^2$)
- Parc Sglefrio Canolfan Rwydwaith/ Cystadleuaeth/ Cyrchfan Newydd — De Caerdydd (> $1200m^2$)

Mannau a Dotiau mewn Parciau (hyd at $600m^2$)
- Manteisio ar Leoliadau

Mannau a Dotiau Trefol gyda Datblygiadau Newydd (hyd at $600m^2$)
- Datblygiad Arglawdd Curran
- Adnewyddu Rhodfa Lloyd George
- Adnewyddu Parc y Gamlas

Gwelliannau Beicffyrdd Addas i Sglefrio
- Rhodfa Lloyd George

# CYNLLUN LLEOLIADAU A MATHAU O BARCIAU SGLEFRFYRDDIO

Datblygwyd y cynlluniau manwl canlynol i arwain gweithrediad argymhellion y Strategaeth.

Mae maint cyffredinol rhwydwaith parciau sglefrfyrddio estynedig Caerdydd yn dilyn y canllawiau a nodir yn y Strategaeth a'i nod yw mynd y tu hwnt i'r gofyniad gofod lleiaf a argymhellir o ran gofod parciau sglefrio newydd a amlinellir ym Mhennod 4.

Bydd lleoliadau penodol pob parc sglefrio yn cael eu pennu fesul achos a byddant yn ystyried y defnydd tir cyfagos yn ogystal â'r ystyriaethau allweddol a amlygwyd yn y Strategaeth.

Bydd nodweddion, math o dir, hyd a lled a chynllun dylunio cyffredinol pob amwynder sglefrio yn amrywio a dylid eu datblygu mewn ymgynghoriad â dylunwyr parciau sglefrio proffesiynol, aelodau o'r gymuned a rhanddeiliaid perthnasol.

Dylid ystyried unrhyw gyfleoedd ychwanegol ar gyfer datblygu amwynderau sglefrio sydd â ffynonellau cyllid amgen ond sydd heb eu cynnwys fel arall yn y cynlluniau hyn fel ychwanegiad at y rhwydwaith amwynder sglefrio cyffredinol a'u cefnogi pan fo hynny'n bosibl.





Ffigur 43. Mt. Pleasant Skatepark in Vancouver, Canada
Photo: New Line Skateparks